

ECO'r Wyddfa

Rhif: 433
Mehefin 2015
Pris: 70c



Anrhegu Gwirfoddolwyr Marathon Eryri

Ddiwedd Mai cynhaliwyd cyfarfod arbennig yng Ngallt y Glyn, Llanberis, a hynny gan drefnwyr Marathon Eryri. Pwrpas y cyfarfod oedd cyflwyno sicciau i wahanol grwpiau cymdeithasol o fewn yr ardal a fu'n gwirfoddoli i gynorthwyo'r trefnwyr yn ystod Marathon Eryri y llynedd. Roedd Jayne Lloyd, y trefnydd yn falch o gael cyhoeddi fod Marathon Eryri Cyf (a sefydlwyd pan beidiodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol drefnu'r ras) wedi cyfrannu miloedd o bunnau i wahanol fudiadau lleol dros y blynyddoedd ers hynny.

Eleni, cyflwynwyd £3,000 i Bwyllgor Pentref Rhostryfan; £1500 i Gadetiaid y Fyddin a Thim Achub Llanberis; £1,000 i Geidiaid Llanberis; £500 yr un i Glwb Peldroed Llanrug; Neuadd Bentref

Penisarwaun; Cymdeithas Eryri; Clwb Peldroed Waunfawr; Clwb Peldroed Bethel; Ysgol Gynradd Waunfawr; Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro; Adran Technoleg Ysgol Brynrefail; Ysgol Brynrefail (tuag at de parti Nadolig Ysgol Pendalar) a Thim Pelrwyd Merched Arfon.

Yn ogystal, mae tri thim peldroed Llanberis yn cael eu noddi ganddynt.

Ers tair blynedd, mae Tenovus wedi bod yn elwa o'u partneriaeth, ac wedi codi dros £30,000 o bunnau yn yr amser hwnnw. Mae'r elusen lleol Awyr Las hefyd yn derbyn nawdd gan Marathon Eryri Cyf.

Yr Ymylon



Cofiwch yr enw! Fel nifer o grwpiau eraill sydd â'u gwreiddiau ym mro'r "Eco", efallai mai dyma fydd yr enw mawr nesaf ym myd cerddoriaeth gyfoes Cymru.

Pedwar ffrind o Flwyddyn 10 Ysgol Brynrefail yw'r Ymylon; Gethin ar gitar a llais, Dion ar y gitar, Morgan ar y gitar fas a Sion ar y drymiau. Mi chwaraeodd y band am y tro cyntaf yn Eisteddfod Llanrug fis Rhagfyr diwethaf. Ers hynny, enillwyd gwobr y grŵp gorau yng Ngŵyl Gelf Clybiau Ieuenctid Gwynedd ym Mhorthmadog ym mis Mawrth, ac mae eu cân 'Dwyn Cyfrinachau' eisoes wedi cael ei darlledu ar Radio Cymru

Ddydd Sadwrn Mehefin 20fed bydd Yr Ymylon yn rhan o weithgareddau Mike Peters i godi arian tuag at elusau 'Love Hope' a 'Strength/Awyr Las'. Wedi concro canser bydd Mike yn dringo'r Wyddfa unwaith eto eleni i godi arian ar gyfer yr achosion da yma. Bydd yn canu yn Caffi Hanner Ffordd ac ar y copa. Bydd yr Ymylon a nifer o fandiau eraill yn chwarae'n fyw yn yr Heights yn Llanberis yn ystod y prynhawn.

Mae'r Ymylon hefyd yn chwarae yng Ngŵyl Awake yn Mharc Glasfryn Gorffennaf 12 ac yng Ngŵyl Arall Caernarfon yn penwythnos canlynol.

ECO'r Wyddfa

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU' RECO 2015

Rhifyn
Gorffennaf/Awst

Copi i law
Mehefin 21

Bwndelu
Gorffennaf 3

Ble
Bethel

RHIF 433
Mehefin 2015

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i**
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Rhian Elin George, Swn yr Egan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swñ-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid 76
dylunio graffeg
07766956673

LLYTHYRAU

SOSTeoporosis.

Annwyl Ddarllenwyr,
Allwch chi helpu?

Mae 1 mewn 2 o ferched ac 1 mewn 5 o ddynion dros 50 oed yn dioddef o Osteoporosis, cyflwr sydd cymaint mwy na thorri asgwrn. Gall

- Achosi poen cyson yn y cefn a'r clun
- Wneud gweithred syml o agor ffenest neu ddrws yn anodd
- Effeithio ar y balans gan achosi codymu
- Achosi crymu sy'n effeithio ar yr ysgyfaint ac anadlu

Er bod y cyflwr yn effeithio cymaint, y cyngor mae Llywodraeth Cymru yn ei gael (gan UK NSC - pwyllgor sgrinio) yw na fyddai sgrinio yn 50 oed yn gost effeithiol ac ni fydd adolygiad arall tan 2016/17. Trwy fy Aelod Cynulliad, Alun Ffred Jones, rwyf wedi derbyn llythyr gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac mae ei hymateb hi yn fwy cadarnhaol a chalonogol. Ond er mwyn gweithredu mae hi angen tystiolaeth o'r problemau sydd ynghlwm ag osteoporosis.

Felly, 'sgynnoch chi neu aelod o'r teulu unrhyw stori neu brofiad i'w rannu â'r Comisiynydd? Gall fod yn brofiad positif neu negyddol. Unrhyw beth sydd yn sôn am y driniaeth/y gefnogaeth neu'r diffyg triniaeth/gefnogaeth a dderbynioch ers i chi wybod eich bod yn dioddef o'r cyflwr hwn.

Os allwch helpu, ysgrifennwch at Johanna Davies, Adeiladau Cambria, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL.

Gyda'n gilydd, gallwn ymgyrchu i gael sgrinio cynnar yng Nghymru, fydd yn arwain at driniaeth gynnar, fydd wedyn, (a dyma fy ngobaith) yn galluogi pobl hŷn fyw'n annibynnol yn hirach yn eu cartrefi eu hunain. Siawns bod gan bawb hawl i hyn.

Diolch am ddarllen.
Delyth Owen.
(Arwelfa, Y Groeslon).

GŴYL CERDD DANT Llŷn ac Eifionydd 2016.

Annwyl Gyfeillion,

Bydd yr Ŵyl Cerdd Dant yn dychwelyd i Bwllheli yn 2016, ac yn cael ei chynnal yn adeilad Academi Hwyllo Cymru, sydd yn adeilad newydd sbon, nepell o draeth Glan Don yn y dref, sef Plas Heli.

Y mae cynnwrf ac edrych ymlaen yn lleol am gael cynnal yr Ŵyl unwaith eto yn ardal Llŷn ac Eifionydd, ar pwyllgorau eisoes wedi dechrau cyfarfod i wneud y paratodau.

Un o'r tasgau cychwynnol yw chwilio am nawdd i'r cystadlaethau, dros ddeg ar hugain ohonynt i gyd.

Mae gwobrau ar gael yn yr adrannau canlynol:

- Cerdd Dant
- Y Delyn
- Llefaru (i gyfeiliant unrhyw offeryn neu gyfuniad o offerynnau)
- Canu Gwerin
- Dawnsio Gwerin

Os ydych yn dymuno rhoi gwobr ariannol yn un o gystadlaethau yr Ŵyl, yna byddai'r ysgrifenyddion yn falch iawn o glywed gennyh. Gellir cynnig gwobr/gwobrau yn dechrau am gyn lleied â £15 ar ran unigolyn, teulu, gymdeithas, neu er cof am rywun arbennig, a bydd y manylion yn ymddangos yn Rhaglen y Dydd.

Mae cyfrannu gwobr yn ffordd effeithiol iawn o gefnogi'r Ŵyl, a gall unrhyw un sy'n talu Treth Incwm y Deyrnas Unedig ychwanegu at ei gyfraniad trwy lenwi ffurflen Rhodd Cymorth. Gyda'r Rhodd Cymorth am bob £1 a gyfrennir, mae'r Ŵyl yn hawlio 25c yn ychwanegol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Pe dymunech roi gwobr, neu am fwy o wybodaeth yn gyffredinol, yna cysylltwch ag Ysgrifenyddion y Pwyllgor Gwaith cyn diwedd mis Hydref os gwelwch yn dda - Gwyn a Rhian Parry Williams, Rhos Eithin, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd.LL53 6TF. 01766 810717 neu e bost: gwynarhian@btinternet.com

Diolch yn fawr, ac edrychwn ymlaen i'ch croesawu i Llŷn ac Eifionydd yn 2016. Yn gywir iawn,
Ken Hughes, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith a John Eifion, Trefnydd yr Ŵyl Cerdd Dant

RHOIDDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£50: Derek Owen, Bro Rhyddallt, Llanrug.

£20 Dilys Mai Roberts, Tŷ Haciau, Penisarwaun; Myrddyn Pritchard a'r teulu, 1 Ffordd Padarn, Llanberis.

£13: Rheon Thomas, Caerdydd.

£10: Ann a Iolo, er cof am Mrs Alice Griffith, Dinorwig; Alwena Jones, Corlan y Bont, Llanrug.

£5: Kathryn Jones, Y Ddolwen, Bethel; John ac Irene, Pant Teg, Waunfawr; John Williams, Rock Terrace, Llanberis.

£3: Helen Evans Munro, Llanrug.

Anfon lluniau i'r "Eco"

Mae llun camera neu gamera ffôn yn ffeil fawr. Er mwyn ei anfon ar y wê mae'r meddalwedd yn lleihau maint y ffeil i'w anfon yn gynt. Yr unig ffordd o leihau maint llun ydi drwy dynnu gwybodaeth ohono. Felly bydd y miliynau o flociau bach sy'n gwneud y llun yn cael eu cyfuno i flociau mwy. Bydd y llun yn edrych yn iawn ar sgrin ond yn ymddangos fel blociau mewn print.

Mae yna opsiwn i anfon y llun yn ei lawn faint ym mhob darn o feddalwedd neu ffôn. Rhaid chwilio amdano gan y bydd mewn gwahanol lefydd.

Os gwelwch fod llun yn llai na rhyw 130KB (KB nid MB) yna mae'n rhy fach i'w argraffu'n llwyddiannus. I weld maint llun rhwch glic dde arno, a dewis Properties yn y gwaelod.

Llun y flwyddyn 'A walk on the wild side'



Andy a'r Alysau
(Llun Siân Davies)

Dyma lun y flwyddyn Clwb Camera Caernarfon. Andy Teasdale o Llanberis a gipiodd y wobwr eto eleni ac ef gafodd dlws Bobby Haines i'w gadw am y flwyddyn. Mae yna dros 70 aelod o'r clwb a

chroeso cynnes i aelodau newydd. Cewch fwy o wybodaeth ar y wefan:- www.caernarfoncameraclub.co.uk

Yn ystod y mis aeth heibio

- Gwelwyd yr etholiad rhyfeddaf o fewn cof, a'r polau piniwn yn baglu ar draws ei gilydd i fod yn anghywir! Aeth Y Deyrnas Unedig roedd y Blaid Lafur, y Ceidwadwyr a'r Rhyddfrydwyr Democraidd mor hoff o'i chlodfori yn Deyrnas Ranedig. Aeth yr Alban bron yn gyfangwbl yn eiddo i'r cenedlaetholwyr mewn daeargryn gwleidyddol nas gwelwyd mo'i fath erioed o'r blaen. Cadwodd y Blaid Lafur ei gafael ar y mwyafrif o seddau Cymru, ond, ar wahan i rannau o ogledd Lloegr, a phocedi eraill yn yr hen ardaloedd diwydiannol trwm, aeth y wlad honno i afael y Ceidwadwyr. Tair plaid wahanol mewn tair gwlad wahanol, a Cheidwadwyr Lloegr yn rheoli, er mai dwsin yn unig o'u plaid sydd yng Nghymru a'r Alban gyda'i gilydd. Diddorol fydd gwyllo sut y bydd y Prif Weinidog yn cario allan ei addewid o wasanaethu ei "one nation" – a dyna ddefnydd anghywir o'r gair hwnnw cyn cychwyn!
- Er gwaethaf y tywydd gaeafol bu penwythnos Triathlon Llanc y Llechen yn llwyddiant eto eleni. Cwmni a sefydlwyd yn lleol – Camu i'r Copa, sydd bellach a'u pencadlys yn Llangefni – oedd y trefnwyr, a rhaid eu llongyfarch am yr achlysur unwaith eto eleni. Brafoedd gweld a chlywed defnydd helaeth o'r Gymraeg ar eu holl arwyddion a gan y ddau sylwebydd, Mathew Ward a Stephen Edwards, y ddau yn hogiau lleol. Yn sicr, bu'n llwyddiant economaidd i'r ardal hefyd, gyda chystadleuwyr yn manteisio ar y cyfle i aros yn Llanberis a'r cyffiniau. Roedd 40 aelod o Dim Triathlon Thames Valley yn cystadlu, a daethant a'u teuluoedd gyda hwy i aros yma am ddwy noson. Dychmygwch faint o wariant a ddaeth i'r ardal yn sgil yr un tim hwn!
- Mae blwyddyn 2016 wedi ei dynodi yn Flwyddyn Antur Cymru. Mae Llanberis eisoes wedi hawlio'r teitl o fod yn Ganolfan Antur Cymru o ganlyniad i'r holl ddigwyddiadau athletaidd amrywiol sy'n cael eu cynnal yno. Ac ar ddiwedd y seremoni wobrwyo yng nghystadleuaeth Triathlon Llanc y Llechen, cyhoeddwyd y bydd Triathlon 'Ironman' yn cael ei chynnal yn yr ardal y flwyddyn nesaf, fydd yn golygu dwy filltir a hanner o nofio, milltiroedd yn fwy o feicio a marathon llawn o redeg!
- Cyhoeddodd Cwmni Rheilffordd yr Wyddfa fod un o'u cerbydau i'w enwi ar ôl y gantores Katherine Jenkins. Bydd y seremoni yn cael ei chynnal ym mis Mehefin. Mae cerbydau eisoes wedi eu henwi ar ôl Bryn Terfel a Syr David Brailsford. Ond mae'r datganiad wedi achosi dwy farn hollol wahanol

yn yr ardal. Yn ôl cyfaddefiad Katherine Jenkins ei hun, fu hi erioed ar gopa'r Wyddfa, ac y mae rhai yn wffio at y dewis gan nad oes ganddi gysylltiad o gwbl â'r ardal. Yn eu barn hwy, dylai enwogion mwy lleol gael eu anrhydeddu. Y farn arall yw mai stroc fasnachol glyfar yw hon, drwy gysylltu enw rhyngwladol enwog â'r rheilffordd.

- Mae pobl Cymru yn llai gwybodus am eu hanes na thrigolion unrhyw wlad arall yn Ewrop. Dyna farn Carwyn Jones. Lleisiodd y farn honno mewn cyfarfod diweddar yng Nghaerdydd tra'n annerch aelodau comisiwn Prydeinig UNESCO. Y gobaith yw y bydd y diwydiant llechi yng Ngwynedd yn cael ei gydnabod fel Safle Treftadaeth Byd, yn union fel cestyll Edwardaidd Caernarfon, Conwy, Biwmares a Harlech. Mae'r cestyll eisoes yn denu hanner miliwn o ymwelwyr y flwyddyn, ac yn cynhyrchu arian sylweddol i economi lleol y pedair tref. Mae Amgueddfa y diwydiant llechi wedi ei lleoli o fewn ein hardal ni, a byddai derbyn statws Safle Treftadaeth Byd yn hwb ariannol sylweddol.

- Daeth y gwaith o adnewyddu'r ffordd o Dwnnel Pen Llyn i waelod Gallt y Glyn yn Llanberis i ben er mawr ryddhad i'r rhai sy'n defnyddio'r ffordd yn ddyddiol. Mae'r gwariant ar adnewyddu'r wal gerrig, ail-gerbio'r ffordd, ei hail-wynebu ac ail-wneud y palmant a'r llefydd aros wedi bod yn sylweddol. Eisoes mae pryder yn cael ei ddatgan ynglŷn â'r tebygolrwydd o ddamweiniau ar y ffordd. Hawdd iawn, oherwydd yr wyneb llyfn, yw gyrru fyfyrn cyflymach nac oedd yn arferol, ac i hynny ar ffordd droellog godi'r posibilrwydd o achosi damwain. Mae beicwyr hefyd yn cael eu denu i ddefnyddio'r wyneb llyfn (a rhai hyd yn oed yn beicio ar y palmant) yn hytrach na dilyn wyneb garw Lôn Las Peris. A chysidro fod cymaint o wario wedi bod ar y darn hwn o ffordd, teg gofyn faint mwy fyddai wedi ei gostio i darmacio Lôn Las Peris yn dilyn ail-osod y pibellau nwy ar ei hyd, yn enwedig o gofio fod addewid wedi ei roi flynyddoedd yn ôl bellach i wneud hynny.

- Ac o son am Gastell Caernarfon, yr Amgueddfa Lechi a Lon Las Peris, onid manteisiol fyddai ymestyn y Lôn Las i lawr dyffryn afon Saint i'r dref a chreu llwybr amgylcheddol-gyfeillgar i gerddwyr a beicwyr fyddai'n cysylltu dau Safle Treftadaeth Byd? Ydi'r weledigaeth gan Gyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru i wneud hynny?

Newyddion Ysgol Cwm y Glo



Hywel Wms a'r plant

Daeth Mr. Rhodri Sellars o Dŵr Cymru atom un prynhawn. Rydym wedi bod yn gwneud gwaith ar ddŵr ac afonydd yn ddiweddar. Roedd ganddo lawer o weithgareddau i ni ddysgu am arbed dŵr.

Aeth criw o'r dosbarth i gystadlu yn ras traws gwlad yr Urdd. Cafodd bawb hwyl – a medel yr un!

Buom i gyd draw i ganolfan arddio Menter Fachwen i dreulio prynhawn gyda Maggie a'i ffrindiau. Roedd pawb yn brysur yn plannu, trawsblannu a helpu gwneud compost. Rydym yn gobeithio ein bod wedi bod o gymorth. Roedd yn brynhawn gwych – diolch!

Roedd Mai 7fed yn ddiwrnod arbennig yn yr ysgol gan ei bod yn cael ei defnyddio fel gorsaf bleidleisio i'r gymuned. Daeth un dyn pwysig heibio – Seren a Lucy oedd yn ei adnabod – Mr. Hywel Williams! Diolch am dreulio ychydig o amser efo ni.

Mae pobl 'Agor y Llyfr' yn dod yma yn rheolaidd. 'Da ni wrth ein boddau yn cael stori newydd ganddynt bob tro – a weithiau 'da ni'n cael cymryd rhan!

Hwyl am y tro Disgyblion Dosbarth Marchlyn!

Cydymdeimlad Yn frawychus o sydyn yn ei chartref yn Llanrug bu farw Mrs Sylvia Jones, yn enedigol o Gwm-y-glo ac yn ferch i'r diweddar Mr a Mrs Griff Orritt. Brwydrodd yn ddewr am flynyddoedd yn erbyn clefyd y crydcymalau. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r plant, Angela, Colin a Bethan a'i wyres a'i wyrion bach, ei brawd, Les ar teulu, Moranedd.

Hefyd cydymdeimlwn yn ddwys â Hayley, Bryn Crwn Cottage, yn ei phrofedigaeth o golli ei thad, Mr Roy Griffiths yn Llanberis, taid annwyl i Caryl.

Llongyfarchiadau i Rhian ac Adrian, Ty'n Gerddi Uchaf, ar enedigaeth merch fach, Isla June, chwaer fach i Leo.

Hefyd i Bethan a Llifon, 1 Bryn Difyr, Bwlch, ar enedigaeth mab bach, Tomos Cledwyn.

Llongyfarchiadau i Huw Gwynn, Gwêl Elidir, ar gael ei ddewis i chwarae i dîm pêl-droed gogledd Cymru dan 14 oed yn Parc y Ddraig, Casnewydd ar 27 a 28 Mai. Dymuniadau gorau iddo a phob lwc i'r tîm.

Arholiadau Dymuniadau gorau i blant y pentref sydd yn sefyll arholiadau yn ystod yr

wythnosau nesaf.

Adref o'r Ysbyty Dymunwn wellhad buan i Francis Hughes, 17 Dôl Afon, ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau yn festri Eglwys St Mair bnawn Mawrth, 19 Mai. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan yr arweinydd a dechreuwyd gyda gwasanaeth byr acadrodd gweddi Undeb-y-Mamau. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth rai o'r aelodau. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd yn mis Ebrill gan Auriel a thrafodwyd rhai materion. Mae

ticedi ar gael i fynd i'r Sêl Enfys yn y gadeirlan ar 19 Mehefin. Mae trysorydd y ddeoniaeth yn ymddeol a phasiwyd i anfon £20 tuag at anrheg a cherdyn iddo. Yn gofalu am y lluniaeth a'r raffl oedd Auriel a diolchwyd iddi gan Dorothy. Enillwyd y raffl gan Mrs Katie Williams. Cafwyd paned ac amser i brynu oddi ar y bwrdd gwerthu. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y gras yn Gymraeg a Saesneg. Cyfarfod nesaf: 16 Mehefin - Te Prynawn i derfynu'r cyfarfodydd am y tymor.



Georgia Parkinson 2il; Abbi Parkinson 3ydd.



4 o ferched o Benisarwaun sy'n chwarae i dîm dan 12 oed Merched Caernarfon, Pencampwyr y Gynghrair eleni. Abbi a Georgia Parkinson, Enlli Williams a Mair Jones.

- yn dynn ar ei sodlau - yn dod yn drydydd.

Mae'r ddwy, yn ogystal ag Enlli Williams a Mair Jones, hefyd yn chwarae i dim dan 12 Caernarfon a ddaeth i'r brig eu cynghrair eleni.

Parhad PENISARWAUN

Gŵyl Traws Gwlad - Llongyfarchiadau mawr i bawb fu yn cystadlu yng Ngŵyl Traws Gwlad y Faenol yn ddiweddar: Rhedodd pawb yn arbennig o dda ar y noson mewn rasys o safon uchel iawn. Da iawn chi!

Gwersi Beicio - Treuliodd Bl 5 a 6 ddau sesiwn yn cael gwersi beicio dydd Mercher a Iau, 13eg a 14eg o Fai. Roedd pawb wedi gweld gwerth yn y sesiwnau yma ac wedi cael hwyl.

Cronfa'r Pensiynwyr- Enillydd y bêl mis Ebrill oedd Mrs Jean Jones, 24 Bryn Tirion gyda rhif 47. Llongyfarchiadau!

Ysgol Sul Bosra Anfonir ein cofion anwylaf at Mr Evie Jones ac Anti Pat, sy'n dal i dderbyn triniaeth ond rydym yn falch o glywed eich bod yn gwella.

Y mae dau ddyddiad i'w nodi ar y calendr:

Cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid 'Miri Mehefin' bawn Sul, Mehefin 28ain yng nghapel Shiloh, Tregarth am 2.00 y pwnn gyda the bach i ddilyn yng nghanolfan Gymdeithasol Tregarth. Hyderwn y cawn eich cefnogaeth.

Cynhelir Cymanfa Cylch Deiniolen a Chwm y Glo bawn Sul, Medi 20fed, yn

Neuad Gymuned Penisarwaun am 2.00 y pwnn. Bydd cyfle i gymdeithasu gyda phaned a lluniaeth ysgafn ar y diwedd.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Cynhaliwyd 'Miri Mai' nos Fercher, Mai 20fed, gyda stondinau, raffl, cŵn poeth a phaned ynghyd â rasys i'r gwahanol oeddrannau. Dymunir diolch i bawb a gefnogodd y noson. Dymunir cydnabod rhoddion ariannol sylweddol hefyd gan ffrindiau.

Eisteddfod Bentref 2015 Cynhelir yr Eisteddfod nos Wener, Hydref 16, am 6.00 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned. Cynhelir Noson Bingo nos Fercher, Medi 16, am 6.30 gyda chyfle i rannu testunau'r Eisteddfod a dyddiadau ymarferion.

Dymuniadau Gorau Dymunir pob hapusrwydd i Manon Glyn, Bryn Eglwys gynt, a Cefyn ar eu priodas hyfryd yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis, Mai 16. Pob bendith i'r ddau ohonoch.

Sefydliad y Galon Bydd casgliad blynyddol o dŷ i dŷ Sefydliad y Galon yn digwydd rhwng Mehefin 13 - 26 a bydd Ann Ifans a Liz Jones yn falch iawn o unrhyw gyfraniadau. Os dymuna unrhyw un helpu cysyllter ag Ann ar 872407.

Band Prês enwocaf y byd yn perfformio gyda Chôr y Penrhyn

Braint gan Gôr y Penrhyn yw cael rhannu llwyfan gyda'r band prês mwyaf enwog a llwyddiannus ym Mhrydain, os nad yn y byd, sef Band y Black Dyke. Bydd y cyngerdd yn cael ei gynnal yn Venue Cymru, Llandudno ar yr 20fed o Fehefin.

Dyma ychydig o hanes y band:

Fe'i sefydlwyd yn 1815 gan Peter Wharton ym mhentref Queenshead, sydd erbyn heddiw yn cael ei adnabod fel Queensbury.

Band y Black Dyke yw'r band sydd wedi ei recordio fwyaf yn y byd, gyda dros 350 o recordiau, ac mae'r nifer hwnnw'n cynyddu'n flynyddol. Hwn hefyd yw'r band cystadleuol mwyaf llwyddiannus yn y byd, gan ei fod wedi ennill y Bencampwriaeth Ewropeaidd ar ddeuddeg achlysur, y tro diwethaf yn 2012. Maent wedi ennill y Gystadleuaeth Agored Brydeinig 30 o weithiau (y ddiwethaf yn 2014), a Phencampwriaeth Genedlaethol Prydain 23 o weithiau (y ddiwethaf, eto, y llynedd). Yn 2009, 2011, 2012 a 2013 roedd y band yn fuddugol ym Mhencampwriaeth Genedlaethol Lloegr. Maent ar hyn o bryd ar y brig yn nhabl Bandiau Pres y Byd (yn ôl y cylchgrawn "Brass Band").

Mae traddodiad bandiau prês a chorau meibion wedi ffynnu erioed ym mro'r chwareli llechi. Dyma gyfle i chwi felly i fwynhau'r gorau o ddau fyd. Gellir archebu tocynnau drwy ffonio 01248 601167 neu 01492 872000.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)

Dyweddio Llongyfarchiadau i Karon Williams, Fuches Las, Ceunant, ar ei dyweddiad efo Nicholas James Goodwin yn ddiweddar. Pob dymuniad da i chi i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau hefyd i Llinos Angharad Jones a Darren Jones, Bryn Berllan, Ceunant, ar eu dyweddiad hwythau yn ddiweddar. Pob dymuniad da.

Croeso Adre i Gethin Roberts, Gwynfryn, Ceunantar, ôl cyfnod o deithio a gweld dipyn ar y byd.

DODREFN PERKINS

2 Ganolfan Pen-Ilyn, Caernarfon, Ffôn (01286) 676040
Hefyd yn-16 Stryd Porth Mawr. Caernarfon Ffôn (01286) 673535

Pob math o ddodrefn tŷ
Cegin • Ystafell Fyw • Lloft

PRISIAU CYSTADLEUOL

Carpedi • Llenni a Lloriau Pren

Ffon- (01286) 676040

grid76 dylunio graffeg/graphic design
darlunio/illustration
animeiddio/animation
graffeg arddangos/display graphics



- Cardiau Busnes
- Arwyddion
- Graffeg ar Gerbydau
- Gwefanau a mwy...

Llanrug 07766956673 gwyndaf@grid76.co.uk
gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service



Clwb Bro Bethel Yn absenoldeb anorfod y Llywydd a'r Is-Lywydd croesawyd pawb ynghyd gan Glenys Griffiths. Cydymdeimlwyd â theulu y diweddar Bob Hughes a fu farw yn ddiweddar. Trafodwyd yr holiadur oedd wedi cyrraedd oddi wrth Age Cymru a soniwyd am y Clwb Cinio i bobl dros 50 oed ynghyd â'r Fforwm Arfon nesaf ar Mai 28ain.

Ann Hopcyn, gynt o Fethel ond erbyn hyn wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon, oedd y wraig wadd a chafwyd orig gerddorol hynod o ddifyr yn ei chwmmi. Enghreifftiau o gerddoriaeth gan gyfansoddwyr yr ugeinfed ganrif oedd cynnwys ei sgwrs, a daeth y dyfyniad cyntaf o'r opera Tosca gan Puccini, ac yna tri darn gan Prokofiev Webern a Walton oedd y ddau nesaf ac i gloi clywsom ddyfyniad gan ddau gyfansoddwr blaengar iawn o Gymru, sef Concerto i'r delyn gan William Mathias a'r Benedictus o'r Armed Man gan Karl Jenkins. Yn dilyn clywed pob darn cawsom drafodaeth ar gynnwys y darnau sef traw, amser, dynameg, cyflymder ac yn y blaen, a difyr oedd clywed ymateb yr aelodau ar wahanol agweddau o'r cyfan. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn a chyn troi am adref bu i bawb gael cyfle i gymdeithasu dros banad wedi ei pharatoi gan Elizabeth Evans, Megan Humphreys ac Eirlys Sharpe.

Trip pentymor fydd nesaf ar ddydd Mawrth, Mehefin 2il. Bydd y bws yn cychwyn o'r Cysegr am 10.00 ac yn codi ar y ffordd i lawr drwy'r pentref.

Diolch.

Ar ran Uned Apel Cancr a Haematoleg Alaw diolch yn fawr i drigolion y pentre a'r pentrefi cyfagos am eu cefnogaeth i'r noson Blasu Gwin yn y Neuadd ar Ebrill 24. Diolch yn arbennig i'r Parch Marcus Robinson am noson arbennig a hwyliog iawn. Fe godwyd £1,000 at y gronfa leol.

Diolch.

Dymuna Margaret, Dafydd ac Einir gynt o 6 Bro Rhos, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn dilyn colli Robin Bethel; gŵr, tad, taid a hen daid

sbeshal iawn. Bu farw yn dawel yn Ysbyty Gwynedd gyda'i deulu yn gwmni iddo ar Ebrill 23ain. Cafwyd gwasanaeth arbennig iawn, ac mi gafodd 'send off' roedd yn ei haeddu, diolch i'r Parchedigion Marcus Robinson ac R.E.Hughes. Roedd Capel Cysegr a'r Amlogsgfa yn ddiweddarach yn llawn o deulu a ffrindiau. Diolch i Gwynfor a Jane o Gwmni E.W.Pritchard am eu gofal ohonom wrth drefnu'r angladd. Gwerthfawrogir yn fawr y rhoddion anrhydeddus o £820 a gyflwynwyd i Gartref Plas Pengwaith a Meddygfa Waunfawr am eu gofal o ddyn arbennig iawn. Diolch hefyd i fwyty Groeslon Tŷ Mawr am y lluniaeth yn dilyn.

CWISIBAWB – ANOSON O HWYL

Daeth dros ddeugain o oedolion a phlant ynghyd yn Ffestri Capel Cysegr, Bethel nos Fawrth, Ebrill 21, i fwynhau'r 'Cwis i Bawb' a gynhaliwyd dan nawdd y Pwyllgor Gweithgareddau. Lluniwyd y cwestiynau gan Hefin a Sarah Evans a nhw oedd y cwisfeistri. Cafwyd amrywiaeth ddiddorol o gwestiynau ar nifer o wahanol destunau, gydag adran arbennig ar gyfer y plant. Bu cystadlu brwd rhwng timau'n cynnwys rhwng pedwar a chwech o aelodau. Bu egwyl fer ar ôl rhan gyntaf y cwis, a manteiswyd ar y cyfle i brynu tocynnau raffl, sgwrsio a chymdeithasu dros banad. Ar ddiwedd y noson, cyflwynwyd yr atebion a'r marciau a thîm Geraint Ellis oedd yn fuddugol. Rhannwyd oddeutu deg o wobrau i enillwyr y raffl. Diolchodd Llywydd y noson, Dr J. Elwyn Hughes, i Hefin a Sarah am ddarparu noson mor hwyliog a difyr, i Gwilym a Phil am redeg y raffl, i Merfyn am fod y gyfrifol am gyhoeddusrwydd, ac i aelodau'r Pwyllgor Gweithgareddau am baratoi'r banad.

Byddai'r Pwyllgor yn falch o dderbyn syniadau gan bobl y pentref ynghylch y math o gyfarfodydd a gweithgareddau yr hoffent eu gweld yn cael eu cynnal.

Merched y Wawr

I gychwyn y cyfarfod bu i ni ganu Càn y Mudiad gyda Glenys Griffith yn cyfeilio – diolch iddi hi a Beti Owen am gyfeilio drwy'r tymor.

Ein gwestai mis Mai oedd Sarah Davies sy'n gweithio yn Ysbyty Eryri ond sydd hefyd yn gweithio'n wirfoddol i Sefydliad Ymchwil y Galon. Yn ogystal â rhoi gwybodaeth werthfawr i ni am afiechydon y galon, anogodd ni i gynorthwyo i godi arian at yr achos pwysig hwn, nid yn unig trwy gyfrannu i flychau casglu ond hefyd llenwi bagiau â nwyddau i'w hail gylchu. Cyflwynodd nifer o bamffledi a llyfrau sy'n disgrifio'r gwaith a wneir, ac hefyd taflenni i helpu osgoi helyntion gyda'r galon.

Disgrifiodd Sarah sut y mae ei bywyd hi wedi ei achub gyda thriniaethau i'r galon, y cyntaf pan oedd yn dair ar ddeg oed a'r diweddaraf nemor dair blynedd yn ôl. Yn dilyn y llawdriniaethau ychwanegodd y bydd y gofal yn angenrheidiol am ei hoes. Felly roedd hi y person delfrydoli ddod atom i siarad am y pwnc a ddewiswyd eleni gan Ferched y Wawr yn genedlaethol i ymgyrchu drosto mewn amryfal ffyrdd.

Glenys Griffith fynegodd ddiolch i Sarah. Mae Glenys yn aelod o bwyllgor Sefydliad y Galon, ac mae Lynnwen Morris yn rhoi o'i hamser i gynorthwyo yn y siop yn Nghaernarfon.

Fe'n hatgoffwyd am Ffair Haf Pwyllgor yr Anabl ar Fehefin Sed yn festri Capel Ebeneser, Caernarfon, a hefyd noson Celf a Chreffft ar Fehefin 12fed yn Sefydliad Coffa, Llanrug. Diolch i bawb gyfrannodd at yr Apêl Ategolion ac i Mary Evans a Gwyneth Williams am baratoi'r baned (yn absenoldeb Bet oedd yn crwydro yn Sbaen!) Falmai Owen enillodd y raffl. Dymunwyd yn dda i Mair Read sydd ar fin derbyn llawdriniaeth.

Swyddogion 2015/16 yw: Llywydd - Mair Read; is-lywydd -Gwyneth Jones; ysgrifennydd -Anita Owen; is-ysgrifennydd -Mary Lloyd Jones; trysorydd – Anwyllyd Wyn Jones. Pwyllgor - Gwyneth Williams, Delyth Williams, Anne Elis, Lynnwen Morris, Ellen Ellis, Eryl Roberts ac Alys Jones. Pob dymuniad da iddynt oddi wrth griw 2014/2015. Gobeithio cawn heulwen i grwydro tua'r Ysgwrn ar 13 Fehefin i orffen y tymor am eleni.

Diolch Ar ran Uned Apêl Cancr a Haematoleg Alaw diolch yn fawr i drigolion y pentre a chyfagos am eu cefnogaeth i'r noson Blasu Gwin yn y Neuadd Ebrill 24. Diolch yn arbennig i'r Parch Marcus Robinson am noson arbennig a hwyliog iawn. Fe godwyd £1,000 at y gronfa leol.

I gyfarch Siôn Elwyn

Nid iaith arall doethuriaeth, - neu rhyw bwys

rhoi barn ar lenyddiaeth,

neu'r ddawn i drin barddoniaeth;

ein herio mae, rhanna'r maeth.

R.L.J.

Medal yr 'Arctic Star'



W.G. Ellis (dde) y llong ddistryw HMS Opportune.

R. Hughes (chwith) ar y llong ysbyty HMHS Aba.

Awst eleni yw amser cofio bod 70 mlynedd wedi mynd heibio ers i'r Ail Ryfel Byd ddod i ben. 'Rydym ni, fel cenhedlaeth wedi bod yn eithriadol o ffodus o fod heb orfod cael ein 'galw' i'r gad. Mae'n diolchiadau'n enfawr i'r genhedlaeth a fu' rhaid rhoi ei bywydau yn y fantol er mwyn sicrhau ein rhyddid

Un o feysydd y gad mwyaf erchyll oedd Môr Gogledd yr Atlantig, a thros y blynyddoedd mae cryn ymdrech wedi bod i gyhoeddi medal arbennig i gydnabod dewrder ac ymroddiad y llongwyr a fu'n gwasanaethu ar y llongau oedd yn rhedeg o Brydain i Ogledd Rwsia.

Yn dilyn cefnogaeth gref, ar 19ed Rhagfyr 2012 fe gyhoeddwyd y fedal 'Arctic Star' ac yn dilyn, yn ystod 2013, fe'i cyflwynwyd ar gais i'r llongwyr perthnasol. Cyn belled ac y gwn i yr unig un o bentref Bethel i dderbyn yr anrhydedd oedd Mr Robert Hughes, 6 Bro Rhos, am wasanaeth ar y llong Ysbyty HMHS Aba (yn anffodus fe ymadawodd Robin â ni yn ystod Mai eleni).

Yn dilyn hyn, yn ystod 2014, fe wahoddwyd ceisiadau gan deuluoedd rhai nad oedd bellach gyda ni. Y fedal i'w chyflwyno 'Posthumously'. Unwaith eto yr unig un o'r pentref ddaeth i'm sylw a'r teulu wedi derbyn y fedal ar ei ran yw Mr William G. Ellis, gynt o 15 Y Cremlyn.

Diolch hogiau - 'rydym yn eich cofio.

H.P. Hughes

GAREJ CERIS JONES

Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol

Llanrug 01286 677362 07979620996

E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

BWYD ANIFEILIAID
BOCM • PAULS
GWAIR GWELLT a HAYLAGE

ROBERTS
HENDY PONTLLYFNI CAERNARFON LL54 5EF

Ffôn **07748692100 • (01286) 660254**

—Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn—
Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?
Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones
01286 650255

WAUNFAWR Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Ysgol Waunfawr

Dros yr hanner tymor diwethaf cynhaliwyd y canlynol:

Ymgyrch Kula Kumar

Penderfynodd y Cyngor Ysgol bod angen ail afael yn ein casgliad ceiniogau wythnosol tuag at apêl Action Aid. Lluniwyd pamffledyn gan y Cyngor i'r rhieni yn egluro cefndir y Casgliad Ceiniog sef cefnogi addysg Golu Kumar yn yr India. Gofynnwyd i'r disgyblion i ddod â cheiniogau i'w gosod ar yriard. Bu i'r cynnig yma fod yn llwyddiant mawr ac fe greodd gryn gynnwrf drwy'r ysgol a chryn ddyfalu a oedden ni'n mynd i gwblhau y 100m mewn ceiniogau. Bu'n weithgaredd addysgol hefyd gan fod dosbarthiadau wedi bod yn didoli, cyfrif a phwyso yr arian a gasglwyd ym mhob dosbarth. Llwyddwyd i gasglu £100 tuag at yr achos. Byddwn yn casglu ar gyfer Golu Kumar ar ddydd Gwener olaf pob mis.

Bore Coffi – Masnach Deg

Diolch i rieni disgyblion Blwyddyn 3 a 4 a ddaeth i gefnogi'r bore coffi yn ddiweddar. Gwnaed elw o £60.00 tuag at Masnach Deg.

- Cynhaliodd PC Dylan Pritchard sesiynau addysgol i bawb ar Ymddygiad yn ddiweddar.

- Carem ddiolch i Bwyllgor Rhieni a Chyfeillion yr ysgol am eu cyfraniad ariannol tuag at beintio'r ysgol.

- Cynhelir Sgipio Noddedig dydd Gwener cyn yr hanner tymor. Bydd yr arian a gesglir yn mynd tuag at Ymchwil y Galon.

- Dymunwn wyliau Sulgwyn braf i bawb.

Clwb 300 Enillwyr mis Ebrill

oedd: £30: Mr G.S. Hughes, Pen Das Eithin; £20: Mrs Nia Griffith, Dolydd, Stad Tŷ Hen; £10: Mrs Rhian Ellis, Ty'n Lliadiart.

Dymuno'n Dda Fel y daw'r gwanwyn daw tymor yr arholiadau ysgol a choleg. Dymunwn yn dda i'r disgyblion a'r myfyrwyr sy'n sefyll yr arholiadau eleni.

Genedigaeth Llongyfarchiadau i Irene a John Roberts, Pant Teg, ar ddod yn nain a thaid i wŷr bach. Ganwyd Monty Madog i Rhys a'i briod, Louise, sy'n byw yng Ngwlad yr Haf. Brawd bach i Lottie a chefnder i Miri a Lara, T? Pen, Stad Llys y Waun.

Diolch Dymuna Gavin John, Bryn Celyn, ddiolch i'w deulu a'i ffrindiau am bob dymuniad da a rhodd a dderbyniodd ar yr achlysur o gyrraedd ei ben-blwydd yn un ar hugain oed.

Profedigaeth Yn dawel yng nghartref Preswyl 'Y Pines' yng Nghricieth bu farw Mr Arthur Ellis, Min y Nant. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu yn eu profedigaeth drist.

Profedigaeth Yn dawel yng nghartref Nyrsio Cerrig yr Afon, Y Felinheli, bu farw Mrs Sheila Roberts, Llwyn Celyn. Cydymdeimlwn yn ddwys â Mai Lynn, Tony ac Eira a'r teulu yn eu colled a'u hiraeth am fam a nain annwyl iawn iddynt.

Clwb Pêl-droed Ieuenctid Mae'r clwb yn chwilio am ysgrifennydd newydd am y tymor 2015/16. Os oes gan unrhyw berson ddiddordeb yn y swydd plis cysylltwch â Graham Rowlands ar 650052. Yn anffodus os na ddaw rhywun ymlaen i gymryd y swydd, maen debygol y bydd yn rhaid i'r clwb gau i lawr.

CAEATHRO Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

Gwasanaethau y Capel Ar Fehefin 2ail am 2 pm gweinyddir y cymun a gwasanaethir gan Y Gweinidog, Parch Marcus Robinson. Ar Fehefin 21ain am 2pm: Y Parch J. Ronald Williams.

Llywydd y mis fydd Eryl Jones a'r organydd fydd Bethan Iwan.

Profedigaeth Yn ystod mis Mai bu farw Mr Vernon Jones, Glandŵr. Estynnir cydymdeimlad â'i weddw Yvonne, a'i blant Evelyn a Kelvin a'u teuluoedd. Ymddeolodd Vernon ac Yvonne i Gaeathro wedi blynyddoedd lawer o wasanaeth fel Prif Bostfeistr Caernarfon, a bu'r ddau yn gefnogol iawn i weithgareddau yn y pentref.

Cydymdeimlo Bu farw Mr Glyn Roberts, Rhandirmwyn, gynt o Gefn Rhos, wedi cyfnod o gystudd. Cofiw'n at Catrin a Nia a'u teuluoedd yn eu colled ac yn eu hiraeth. Roedd Mr Roberts yn Reolwr Rhanbarth Gogledd Cymru o fanc H.S.B.C.

Pen-blwydd Llongyfarchiadau i Deiniol Hughes, Tŷ Mawr ar ddathlu ei ben-blwydd yn 75 yn ddiweddar a chlywyd y bu hwyl mawr ar y dathlu!

Genedigaeth Llongyfarchiadau i Dewi a Mair Parry, Cefn Rhos, ar ddod yn Daid a Nain eto. Ganwyd mab bach i Nev a Nia, a brawd bach i Megan ar Fai 16. Dymuniadau gorau i'r teulu.

NEPAL

Rhoes y da yng ngwres y dydd, - yn oerfel
y darfod di-rybudd,
a'r galwadau i'r gwledydd
drwy'r byd, eu cariad er budd.

R.L.J.

ECO'r Wyddfa Cefnogwch ein hysbysebwr

- Trefn Gwasanaethau Eglwys y Waun am fis Mehefin**
- 7: Y Parch Angharad Roberts
 - 14: Oedfa Deulu – Andrew Settatee
 - 21: Y Parch Cath Williams
 - 28: Cyfarfod Gweddi a Thrafodaeth.

CHIROPODYDD

RICHARD THOMAS SRCh/HPC

GALWADAU I'R CARTREF

Cysylltwch Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

30 MLYNEDD o waith yn y GWASANAETH IECHYD

YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu BWYD LLEOL BUSNESAU CEFN GWLAD ECONOMI WLEDIG

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, tŷ neu unrhyw fusnes

Dafydd P. Jones 01492 642683
Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol. Yng nghyd-destyn cyfryngu yswiriant o dan Rhif Cofrestru 308935

Cynhaef ym mis Mai....



Er gwaethaf yr holl ddatblygiadau gwyddonol diweddar, peth anghyffredin iawn yw cael cynhaef o unrhyw fath ym mis Mai, ond dyna'n union a gafwyd eleni pan ddaeth llyfr diweddaraf Sarah Kelly o'r wasg ganol y mis, ac addas iawn ei alw'n 'Cynaeafu'. Mae'r awdur yn wreiddiol o Landdeiniolen, a chafwyd cryn dipyn o hanes ei phlentyndod yn


y fro honno a'i chyfnod yn Ysgol Brynrefail yn 'Deilen ar yr Afon', ei hunangofiant poblogaidd a gyhoeddwyd bedair blynedd yn ôl.

Mymryn yn wahanol yw'r gyfrol ddiweddaraf, ohewrydd mae wedi ei rhannu'n dair rhan. Mae'r rhan gyntaf yn barhad o'r gyfrol flaenorol i raddau, gyda hanes yr awdur yn fyfyrwr yng Ngholeg y Brifysgol ym Mangor yn y blynyddoedd wedi'r Ail Ryfel Byd, ac yn gorfon teithio'n ddyddiol yno o Landdeiniolen ar fws. Yn y rhan hon hefyd ceir darlun hynod ddiddorol o'i gwaith yn Adran Efrydiau Allanol y Brifysgol gan

gynnwys ei hatgofion am nifer o enwogion academaidd y coleg.

Mae'r ail ran yn cynnwys nifer o storiâu byrion, a'r drydedd yn cynnwys ysgrifau. Yma cewch ei barn am Tesco, a'i hanes yn hongian ar ei phen i lawr yng nghae chwarae pentref Brynrefail a hithau eisoes wedi cyrraedd oed yr addewid!

Mae'r gyfrol eisoes ar werth yn eich siopau llyfrau lleol, ac wedi ei chynhyrchu'n lanwaith a thacclus gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon.



Buddugwyr Eisteddfod yr Urdd.

Erbyn i'r copi hwn o'r "Eco" eich cyrraedd byd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili yn tynnu tua'i therfyn, a'r gobaith yw y bydd nifer o unigolion, partion a grwpiau o fewn y fro wedi bod yn llwyddiannus. Gobeithio y cawn roi sylw iddynt yn rhifyn Gorffennaf/Awst.

Yn y cyfamser, mae enillwyr y cystadleuthau gwaith cartref eisoes wedi eu cyhoeddi, ac felly anfonwn ein llongyfarchion i'r canlynol ar eu llwyddiant:

Ysgol Dolbadarn, Llanberis (Gwaith grwp creadigol Blwyddyn 3 a 4).

Ysgol Brynrefail –

Math Roberts (1af am gyfansoddi cerddoriaeth Blwyddyn 10 ac 11)


Nia Haf (1af Ysgrifennu Sgript dan 19 oed a 1af Llenyddiaeth Blwyddyn 12 ac 13)

Ffion Roberts (2il Llenyddiaeth dan 25 oed)

Magi Tudur (2il Llenyddiaeth dan 19 oed)

Mared Ynyr (2il Llenyddiaeth Blwyddyn 12 ac 13)

Leisa Gwenllian (2il Llenyddiaeth Blwyddyn 8)



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

www.fframia.com

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwr

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

London House LLANRUG

PEN CIGYDDION Y FRO

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!

(01286) 673574

GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYLS • TEILS

CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd

A Uned 5 Gwyrfai Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

Cofio Cyflafan Gallipoli.

Yn ystod y mis diwethaf bu arweinwyr gwahanol wledydd Ewrop yn cofio canrif ers ymgyrch y Dardanelles, a'r gyflafan a ddigwyddodd yno yn ystod 1915. Roedd rhai o fechgyn ifanc y fro yn rhan o'r ymgyrch honno. Un o'r bechgyn rheini oedd y Corporal Daniel Roberts, aelod o'r R.W.F. oedd yn gwasanaethu gyda'r Mediteranean Expeditionary Force. Mae rhai o'i lythyrau ym meddiant y teulu, a chafwyd caniatad i'w cyhoeddi. Gyda diolch i Anita Butler, Llanfairfechan (Llanberis gynt) am anfon copiau o'r ddau lythyr i sylw'r "Eco".

Anfonwyd y llythyrau i'r Parch Hugh Lunt, curad Eglwys Sant Padarn, Llanberis ar y pryd. Mae'r llythyr cyntaf yn dyddio o ddiwedd Medi 1915: "Rwyf wedi myned trwy bethau mawr a gweled pethau mawr iawn ers pan rwyf wedi glanio ar y Galipoli Peninsula. Peth go fawr oedd gweled eich cyd-filwyr yn cael eu cymryd ymaith i'r byd arall ar fyr rybudd....Ond trwy y cyfan i gyd yr ydym yn cael rhyw nerth i ddal i fyny o hyd."

Mae'n ddiolchgar iawn o'r Llyfr Gweddi a anfonwyd iddo gan gyfeillion Eglwys Sant Padarn, ac yn nodi fod y caplan, er nad yw'r "hen iaith Gymraeg ddim ganddo", yn cynnal Cymun bob bore Sul a gwasnaeth yn yr hwyr. Pedwar arall o aelodau Sant Padarn sydd gydag ef, sef Sarjant Pritchard, J.J.Owen, Robert Lewis a Percy Buck. "Does dim ond deg i gyd o Lanberis ar hyn o bryd. Mae y Battalion wedi myned yn rhif bychan iawn. Mi roedd hi yn naw cant ac ugain yn glanio ar y nawfed o Awst. Heddiw, tydi hi ddim ond trichant, felly, chwi welwch ein bod wedi myned trwy dipyn o bethau."

O fewn llai nac wythnos wedi iddynt lanio, collwyd "y brawd ieuanc, Edwin Jones, gafodd ei saethu drwy ei ben gan sniper oddi ar ben coeden: fe fu fyw am chwarter awr, ac ni ddywedodd yr un gair ond marw yn dawel. Mi ddaru ni ei gladdu yn barchus, mor barchus ag oedd bosib i ni ei wneud ar y 13eg o Awst, a rhoi croes fach wrth ben ei fedd."

Doedd ganddo fawr o feddwl o'r Twrciaid. "Hen goward ydio ar y cyfan. Am lechu yn ei drench y mae. Tydio ddim am ddangos ei drwyn o gwbl, ac nid yw yn ymosod os caiff lonyddwch, ond amddiffyn y mae."

Ond mae'n amlwg fod y 'snipers' yn creu trafferthion ac yn achosi llawer o golledion. Roeddent yn cuddio ar ben y coed, a "does dim posib eu gweled. Maent wedi peintio eu hunain yr un lliw a'r coed, ac fe ddywedir fod ganddynt ddigon o fwyd, digon o ddiod a digon o ammunition am dri mis, ac mai bob tri mis y maent yn cael eu newid."

Buont wrthi am chwe wythnos yn agor ffosydd: "llafur caled iawn, yn gweithio ddydd a nos." Yna mae'n mynd ymlaen i ddisgrifio'i amgylchiadau byw: "mi fuasai yn werth i chwi weld fy dug out, lle rwyf yn cysgu; rhyw dwll mawr ac wedi buldio rownd ei ochrau gyda cherrig mawr a 'waterproof sheet' yn dô arno, ac yn cysgu yn

fy nillad a fy esgidiau. Mae'n rhy oer i'w tynnu. Mae y tywydd yn dechrau newid. Mae hi yn oer iawn yn y nos."

Ac mae'n ymddangos mai'r unig beth oedd yn cadw ysbryd pawb oedd canu emynau. "Y Sais un ochr yn canu, y Scottish yr ochr arall, a'r hen Gymro mewn rhyw gilfan yn canu yr hen emynau Cymraeg ar yr hen donau annwyl, nes bo eco y lleisiau i'w glywed yn y pellteroedd. Dyma i chwi ein prif donau – Aberystwyth, Crug-y-bar a Sandon ar y geiriau bendigedig 'Oleuni mwyn, trwy dew gysgodau'r byd, O arwain fi."

Ddeufis yn ddiweddarach ac yr oedd 'tew gysgodau'r byd' wedi tywyllu cryn dipyn. "Yr wyf yn ysgrifennu yr ychydig eiriau hyn o'r ffosydd blaenaf, y rhai sydd o fewn dau gant a hanner o lathenni i ffosydd y Tyrciaid. Rhyw le digon rhyfedd sydd yma: mi fuasech yn meddwl yn siwr ambell i ddiwrnod na fuasai dim rhyfela tu fewn i'r Peninsula... ond diwrnod arall maent yn dod o bob cyfeiriad, a phawb yn rhedeg am le i lechu. Neithiwr cafodd (y Twrc) ei ddal yn y 'pudding time'. Roedd wedi bod yn dawel ers nosweithiau, ond beth oeddych yn feddwl oedd o yn ei wneud – gwneud 'exploding mine' mawr yn ymyl ein ffosydd ni. Ond wrth rhyw drugaredd, pan oedd bron a'i orffen dyma Jack gyda llaw fedrus yn gollwng un o'r magnelau i ganol y mine nes y ffrwydrodd – a hwy eu hunain gafodd y golled. Darfu i'r Twrc gythreulio tipyn ac fe wnaeth ymgais fawr amdanom, ond gorfod troi yn ôl fu raid iddo."

Roedd colledion mawr ar y ddwy ochr: "ychydig iawn yw ein rhif ar hyn o bryd. Y dysentri sydd wedi maeddu y rhan fwyaf ohonom. Anrhefnus ydi hi yma gyda golwg am fwyd. Hanner digon ydym yn ei gael, ac yn fwyd gwael hefyd. Torth dair ceiniog i'w rhannu rhwng pedwar o ddyinion mawr; rheini bron llwgu. Dyna fel mae y bechgyn yn mynd i wendid rhwng gweithio yn galed a dim gwerth o fwyd. Ond rhaid sefyll bellach a gwneud y gorau ohoni, a gobeithio y gwel Duw yn dda i roi terfyn arni yn fuan."

Mae hefyd yn crybwyll milwr o'r enw Robert John Thomas. Nid yw'n amlwg yn y llythyr a fu farw ar 'faes y gwaed' fel mae Daniel Roberts yn ei alw, neu o'r dysentri. "Roedd yn ddrwg iawn gen i glywed am y milwr mwyaf siriol oedd gyda ni; gwên ar ei wyneb bob amser. Mae yn ddrwg iawn gennyf dros ei wraig a'i blant bach annwyl yn eu profedigaeth lem. Mae yntau fel y miloedd eraill wedi gwneud ei ddyletswydd ac wedi marw dros ei wlad."

Gydol y llythyrau mae wastad yn crybwyll Eglwys Sant Padarn, a'r gwelliannau sy'n cymryd lle ynddi yn ystod yr amser hwnnw. Mae'n son am y darn newydd yn cael ei gysegru gan yr Esgob, ac yn mawr hyderu y caiff ddychwelyd yn fyw ac iach i Lanberis i "weld yr hen Eglwys unwaith eto." Mae'n diweddu ei lith drwy dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn hen eglwys y plwyf. Hyn, meddai, "yn fyr ac yn flêr oddi wrth un o'ch defaid."

Chwarelwyr tua 1926

David John Pritchard. Tŷ Newydd, Llanrug a Fron Olau, Ceunant, wedyn.

Daeth y lluniau i law gan Gareth Pritchard (Tan y Coed gynt). Hoffai gael gwybodaeth am weddill y chwarelwyr yn y llun.





Llyn Tomos Lewis.

Yn ystod y mis diwethaf, o ganlyniad i ymholiadau ar Facebook, bu cryn holi am enw'r llyn hwn ar gyrion pentref Llanberis gerllaw safle y parc carafannau newydd. Mae'n ymddangos mai'r gred yn lleol yw fod rhywun o'r enw Tomos Lewis wedi boddi ei hun yno rywdro, ac i'r llyn gael ei enwi ar ei ôl. Ond faint o wirionedd sydd i'r stori?

Ar ddiwedd yr wythnos gyntaf ym mis Tachwedd 1890 dioddefodd gogledd Cymru storm enbyd, gyda gwyntoedd cryfion yn hyrddio ar draws yr arfordir ac ymhell i mewn i'r tir. Bu llongau mewn trafferthion, a chafwyd llongdrylliad yn y môr ger Llanddulas. Clodforwyd gweithwyr y chwarel yno am fentro'u bywydau yn ceisio achub rhai o griw'r llong. Yn Llandudno, roedd amgylchiadau mor ddrwg fel i'r bad achub lleol fethu mynd allan ar y môr. Yr un oedd yr hanes ar y Fenai, gyda nifer o longau a chychod mewn trafferthion ym Miwmares. Yng Nghroesor achubwyd dwy ferch ifanc oedd wedi mentro cerdded dros y bwlch am Danygrisiau. Roedd y gwyntoedd mor gryf fel y bu'n rhaid iddynt chwilio am gysgod, ond roedd y glaw a'r eira wedi eu gwlychu a'u hoeri fel na allent symud. Gorfodwyd hwy i dreulio noson ar y mynydd, ac fe'u hachubwyd y bore wedyn gan grwp o chwarelwyr a bu'n rhaid eu cario i ddiogelwch. Ac yn Llanberis, diflannodd "hen wr o'r enw Thomas Lewis" ar ei ffordd adref i'w fwthyn yng Nglynrhonwy. Y gred oedd iddo gael ei chwythu gan y gwyntoedd i grombil chwarel Goodman, oedd wedi ei llenwi efo dwr. Ond er chwilio, ni ddarganfuwyd y corff am bron i dair wythnos.

Ar ddiwedd Tachwedd cafwyd adroddiad byr yn y Caernarvon and Denbigh Herald fod corff Thomas Lewis wedi ei ddarganfod yn y llyn. Adroddir ei fod yn 40 oed, a bod y llyn ar y llwybr rhwng pentref Llanberis a'i gartref yn ardal Glynrhonwy. Mae'n ymddangos felly mai damwain o ganlyniad i'r gwyntoedd cryfion yn gynharach yn y mis oedd achos ei farwolaeth.

Mae Eifion Roberts, Llanberis, hefyd wedi bod yn ymchwilio i hanes y farwolaeth, ac ym mhapur newydd Y Werin daeth ar draws adroddiad yn dweud mai 63 oed oedd Thomas Lewis, ac mai ar ei ffordd adref o'i waith yn Chwarel Glynrhonwy y diflannodd. Yn ôl ymchwil Eifion, roedd yn enedigol o Lanallgo, ac yn byw gyda'i wraig, Mary, yn Field Terrace. Roedd hi'n parhau yno ym mlwyddyn Cyfrifiad 1891 ac yn disgrifio'i hun fel un o dlodion plwyf Llanberis.

Pa adroddiad felly oedd yn gywir? Dyna chwilio'r Herald Cymraeg, a chael stori fymryn yn wahanol eto! Roedd Thomas Lewis yn byw yn Field Terrace, ac ar y nos Sul gyntaf ym mis Tachwedd penderfynodd fynd allan am dro. Roedd hyn rhwng pump a chwech yr hwyr. Gofynnodd i'w wraig a oedd yn fwriad ganddi fynd i'r capel y noson honno. Atebodd hithau nad oedd gan na theimlai yn dda ei hiechyd. Ni ddychwelodd Thomas Lewis i'w gartref y noson honno, ac aeth nifer o'r cymdogion allan i chwilio amdano. Bu chwilio wedyn yn ystod y dydd Llun, a chael ei het ar lan y llyn dwfn yn Chwarel Goodman.

Am weddill y dydd Llun a thrwy'r dydd Mawrth bu 'crablio' yn y llyn. Hynny yw, y drefn o chwilio am rywun wedi boddi oedd gollwng bachau i'r dwr ar ben rhaff a llusgo gwaelod y llyn yn y gobaith o fachu'r corff. Aflwyddiannus fu hyn hefyd, ond y gred yn amlwg ym mhentref Llanberis oedd fod Thomas Lewis wedi boddi. Yna ceir y dyfyniad hwn: "Roedd dryswch ar yr hen frawd ers rhai wythnosau."

Er chwilio gweddill rhifynnau'r Herald Cymraeg am fis Tachwedd a dechrau Rhagfyr, does dim adroddiad o gwbl am ddarganfod y corff.

Mae'n ymddangos felly fod dwy fersiwn wahanol ynglŷn â'i farwolaeth. Storm o wynt fu'n gyfrifol am ei chwythu i'r llyn yn Chwarel Goodman yn ôl un adroddiad, ond mae'r Herald Cymraeg yn lled-awgrymu mai boddi ei hun a wnaeth.

Ond beth am Thomas Lewis ei hun? Fe'i ganed yn Lanallgo (Traeth y Benllech yn ôl cyfrifiad 1881) ar y 6ed o Orffennaf 1832 a'i fedyddio yng Nghapel Carmel (A), Llanallgo ar y 5ed o Awst. Doedd y creadur ddim yn rhy siwr o'i oedran, ac y mae hynny o bosibl yn egluro'r gwahanol oeddrannau a gofnodir gan y gwahanol bapurau newydd. Erbyn 1871 roedd yn byw yn 4 Field Terrace, yn labrwr 38 oed, gyda'i wraig, Mary yn 52 oed. Roedd hi yn enedigol o Lanberis. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, yng nghyfrifiad 1881 roedd y ddau yn byw yn 7 Field Terrace. Mewn deng mlynedd, roedd Thomas Lewis wedi heneiddio ddeuddeng mlynedd, ac yr oedd bellach yn 50 oed! Roedd ei wraig yn heneiddio'n arafach, oherwydd dim ond 61 oed ydi hi! Ond pan gladdwyd gweddillion Thomas Lewis ym mynwent plwyf Llanberis yn Nant Peris ar y 27ain o Dachwedd 1890, dim ond 56 oed oedd. Hon, gyda llaw, oedd y gladdedigaeth olaf yn y plwyf am y flwyddyn 1890.

Nid yw'n ymddangos fod plant o'r briodas.

Does wybod chwaith pryd y dechreuwyd galw'r llyn yn Chwarel Goodman yn Llyn Tomos Lewis, ond mae un peth yn sicr, peidiwch a chredu popeth sy'n cael ei adrodd yn y papurau newydd!

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com



Gŵyl Deiniolen a'r Cylch

Mae'r Wyl am gael ei chynnal eto eleni gyda nifer o weithgareddau wedi eu trefnu ar gyfer yr wythnos. Dyddiad yr Wyl eleni fydd o'r 13eg i'r 20fed o Fehefin.

Dydd Sadwrn - 13eg o Fehefin

Pêl-droed 5 bob ochr - Cae Bwthyn 11.00

Dydd Sul - 14eg o Fehefin

Cyngerdd a choroni brenhines yr Wyl - Eglwys Llandinorwig 6.30 - mae'n bosib trefnu trafndiaeth i'r cyngerdd i unrhyw un sydd yn gofyn o flaen llaw. Cysyllter ag unrhyw aelod o'r pwyllgor i sicrhau eich lle

Cwis Wellington am 9.00

Dydd Llun - 15fed o Fehefin

Disgo plant - Ysgol feithrin 6.00

Cystadleuaeth dartiau Bull am 9.00

Dydd Mawrth - 16eg o Fehefin

Helfa Drysor 6.00 Tŷ Elidir

Dydd Mercher - 17eg o Fehefin

Cinio bach am 12.00 gyda Tudur Owen, Tŷ Elidir - mae'n bosib trefnu trafndiaeth i'r cinio i unrhyw un sydd yn gofyn o flaen llaw. Cysyllter ag unrhyw aelod o'r pwyllgor i sicrhau eich lle

Ras 10k Deiniolen 7.00

Dydd Iau - 18fed o Fehefin

Mabolgampau - Cae bwthyn 6.00

Dydd Gwener - 19eg o Fehefin

Cystadleuaeth Snwcer 6.00

Cystadleuaeth Pwl Wellington am 7.00

Dydd Sadwrn - 20fed o Fehefin

Diwrnod yr Wyl - gorymdaith i gychwyn am 1.00 o Rhydfadog i Cae Bwthyn.

Diolch i holl drigolion y pentref a'r ardal am eu cefnogaeth, gobeithio y cawn wythnos lwyddiannus eto eleni. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i'r holl noddwyr sydd wedi ein cefnogi mor hael eto eleni, diolch i chi gyd.

Canolfan Noddfa

Yn rhifyn mis Mawrth o'r "Eco" cyhoeddwyd llythyr gan y Cyngorydd Elfed Williams, Deiniolen ynglŷn â'r uchod. Mae gohebiaeth bellach wedi bod rhyngddo â'r adran berthnasol o fewn Cyngor Gwynedd. Roedd y Cyngorydd Williams yn awyddus i'r "Eco" gyhoeddi'r ymateb yn llawn yn rhifyn Mai. Cysylltodd yr "Eco" â'r adran berthnasol yn gofyn caniatad i wneud hynny, ond oherwydd cyngor cyfreithiol a rheolau cyfrinachedd ni fu'n bosibl gwneud hynny. Cafwyd ar ddeall fod Pwyllgor Craffu y Cyngor yn paratoi adroddiad, a disgwylir y bydd yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yr haf hwn. Bydd canlyniadau'r Pwyllgor Craffu ar gael i'r cyhoedd.

Yn y cyfamser, gofynnodd y Cyngorydd Williams am i'w ymateb i'r ohebiaeth gael ei gyhoeddi. Unwaith yn rhagor, nid yw'n bosib cynnwys y cyfan o fewn y llythyr hwnnw am y rhesymau a nodir uchod. Dyma ddedoliad o brif themâu'r llythyr.

"...roeddwn wedi nodi yn fy llythyr bod 41 o flynyddoedd yn amser hir i wasanaeth fel a geir yng Nghanolfan Noddfa fod wedi ei leoli mewn pentref bach fel Deiniolen. Er ei fod yn rhoi cyflogaeth i rai lleol, mae mwyafrif yn y pentref yn credu bod yn hen bryd darganfod lleoliad newydd iddo oddi fewn i Wynedd yn ôl y gofynion statudol i ddarparu gwasanaeth digartrefedd. Y ffaith yw er bod y gwasanaeth yn un statudol sy'n rhaid i Gyngor Gwynedd ddarparu - nid yw'n statudol i'w gadw yn Neiniolen! ... y gwirionedd yw bod Canolfan Noddfa yn parhau fel canolfan digartref; mae pobl y ward yn anfodlon iawn o hyn, ac mae'r Cyngor yn gwrthod ein helpu cael gwared â'r ganolfan sy'n achosi cymaint o boen a phryder i'm hetholwyr."

Os oes unrhyw un o etholwyr Deiniolen am fwy o wybodaeth, yna cysylltwch â'r Cyngorydd Elfed Williams.

Llwyddiant Mor falch oeddem o weld Llwyddiant diweddar Mathew Guy yn ennill cystadleuaeth rhaglen y BBC "Chefs on Trial". Mae Mathew wedi gweithio'n galed iawn tuag at ei lwyddiant diweddaraf yma ac mi rydym i gyd yn falch iawn o'i weld yn gwneud mor dda, a bellach yn brif gogydd mewn tafarn/Ty bwyta poblogaidd yn y Forest of Dean. Pob lwc iddo i'r dyfodol.

Newyddion Mi fyddwn yn falch iawn o dderbyn unrhyw newydd am drigolion y pentref neu weithgaredd sydd yn digwydd yn y pentref. Gadewch i ni wybod er mwyn i ni gael adrodd yr hanes yn yr Eco.

Talu am yr Eco I unrhyw un sydd yn dymuno talu am yr Eco a heb wneud eto, mi fyddwn yn ddiolchgar os allwch yrru eich arian unai trwy dosbarthwyr yr Eco neu trwy ddod â'ch arian i Nia neu Glyn, 3 Hafod, Clwt y Bont.

Gwaith yn y pentref Fe welir gweithgaredd go arw yn y pentref ar hyn o bryd oherwydd cynllun sydd yn gwella cyflwr nifer o dai'r ardal. Yn sicr, o'i gwblhau, mi fydd edrychiad tipyn gwahanol ar ambell stryd.

Llyfrgell y pentref Mae ymgynghoriad yn digwydd ar hyn o bryd ynglŷn â dyfodol gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd. Mae'n bosib llenwi holiadur sydd ar gael unai yn y llyfrgell neu trwy safle we'r cyngor cyn y 3ydd o Orffennaf. Mae'n bwysig i chi roi eich sylw ar y mater er mwyn sicrhau dyfodol y llyfrgell.

Y Gymdeithas Undebol Daeth tymor y gymdeithas i ben ar nos Lun, Ebrill 27, gyda chinio ardderchog yng Nghlwb Golff Caernarfon. Diolch i Enid a'r merched am

eu lluniaeth gwych unwaith eto, llywyddwyd y noson gan y Parch John Pritchard a'r gwestai oedd Mr John Dilwyn Williams, Penygroes, sy'n aelod o staff Archifdy Cyngor Gwynedd. Cafwyd sgwrs diddorol ganddo yn olrhain peth o hanes pentref Deiniolen. Diolchwyd iddo gan Mr Brian Price. Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu yn ystod yr wythnosau nesaf er mwyn i bawb roi ei farn i drefnu ar gyfer y tymor nesaf. Diolch i bawb am eu ffyddlondeb am y tymor a fu.

Cylch Meithrin Deiniolen Diolch yn fawr i bwyllgor ymddiriedolaeth Deiniolen am eu rhodd o £550. Cafwyd noson cwis hynod lwyddiannus yn nhafarn y Bull yn y pentref. Yr enillwyr ar y noson oedd 'Sophie's Soldiers'. Llongyfarchiadau mawr iddynt! Ni fyddai'r noson wedi bod yn bosib heb yr holl roddion a'r cymorth gan fusnesau a phobl leol. Gwnaethpwyd £292 ar y noson. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd i lwyddiant y noson.

Gair i atgoffa rhieni sydd â phlentyn a fydd yn ddwy a hanner rhwng Medi 2015 ac Awst 2016 ac sydd â diddordeb yn eu cofrestru i ddechrau yn sesiynau'r cylch. Bydd angen rhoi enw'r plentyn i lawr ar y rhestr cofrestru yn y cylch. Os oes ganddoch chi unrhyw gwestiynau am hyn, bydd staff y cylch yn hapus i'w hateb i chi. Mae'r cylch yn cynnal Disgo'r Carnifal ar safle'r cylch ar nos Lun, 15fed o Fehefin, fel rhan o weithgareddau Gŵyl Deiniolen a'r Cylch. Bydd y disgo yn cael ei gynnal yn Nhŷ Elidir os bydd y tywydd yn ddrwg. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cyfraniadau a'u rhoddion dros y misoedd diwethaf ac i'r staff am eu gwaith caled!



Cefnogwch ein hysbysebwyr

SEINDORF IEUENCTID DEINIOLEN DOSBARTH MEISTR GYDA DEWI GRIFFITHS



Fel rhan o baratoadau'r Seindorf Ieuencid tuag at gystadleuaeth awyr agored y Drenewydd braf oedd croesawu Dewi Griffiths, prif gornedydd Band Tredegar ac un o ffanfferwyr yr Eisteddfod Genedlaethol i'r Hen Felin yn Neiniolen. Croesawyd Dewi i'r diwrnod gan Osian Tomos, arweinydd y Seindorf Ieuencid. Gweithiodd yr ieuencid ar bedwar darn o gerddoriaeth ar gyfer y gystadleuaeth sydd o fewn y mis a chafwyd cyfle i glywed Dewi yn rhoi unawd ar y cornet. Roedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod yn arw. Cyn mynd adref, mwynhaodd rhieni a chyfeillion berfformiad o'r darnau newydd gan yr aelodau. Yn ystod y dydd cafwyd sesiwn cwestiwn ac ateb gyda'r twitor profiadol o Fethel, gan ei holi am ei yrfa lwyddiannus ym myd y bandiau pres. Hoffai Pwyllgor y Seindorf ddiolch yn fawr iawn i Dewi am ei amser ac am yr holl waith trefnu a'r lluniaeth oedd wedi ei baratoi tuag at y diwrnod.

Roedd Dewi yn falch o gael dod yn ôl i Fro'r Eco i weithio gyda'r Ieuencid a dywedodd wrth y wefan Bandiau pres poblogaidd 4 Bars Rest,

“Roedd hi'n bleser ac yn anrhydedd cael fy ngwahodd gan Deiniolen i gymryd rhan mewn digwyddiad oedd wedi cael ei drefnu mor drylwyr. Cefais ddiwrnod arbennig yn gweithio gyda'r ieuencid a cefais groeso cynnes gan bawb, er fy mod wedi dechrau fy ngyrfa chwythu gyda'r gelyn pennaf, Llanrug!”

Ychwanegodd “Roeddwn wedi fy synnu gyda safon pob un aelod o'r band ieuencid ac eu brwdfrydedd yn ystod y dydd ac roedd hyn yn ein galluogi i roi perfformiad i rieni a ffrindiau ar ddiwedd y p'nawn. Hoffwn ddimuno pob lwc i'r band yn y gystadleuaeth ac hoffwn ddiolch i Osian am fy ngwahodd. Cefais ddiwrnod i'w gofio.”

Bydd Cystadleuaeth Awyr Agored y Drenewydd yn cael ei chynnal dydd Sul, y 14eg o Fehefin. Llynedd enillodd y band



Ieuencid wobwr am y band Ieuencid gorau. Pob lwc i'r criw ifanc gweithgar unwaith eto eleni.

Mae'r Seindorf Ieuencid a'r Band Iau yn cyfarfod bob nos Lun am 6.30. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Osian neu Llio ar 07717055639.

Un funud fach ...

LLYTHYREN A THO BACH

Ar brydiau, mae'r newid lleiaf yn ddigon i newid ystyr brawddeg yn llwyr.

Mi sylwais ar hynny'r diwrnod o'r blaen wrth ddarllen un o frawddegau Iesu Grist o'r Bregeth ar y Mynydd. Geiriau cyfarwydd iawn yw'r frawddeg sydd ganddo am agwedd y Cristion at arian: 'Ni allwch wasanaethu Duw a Mamon.' Dweud oedd Iesu na allwn wasanaethu dau feistr. Ac yn union fel na fedrwn ni rannu ein teyrngarwch rhwng dau feistr ni fedrwn chwaith rannu ein teyrngarwch rhwng Duw ac unrhyw beth arall. Mae Iesu wedyn yn rhoi i ni enghraifft o hyn. Ni allwn, meddai, wneud arian (neu Mamon) y peth pwysicaf yn ein bywydau a disgwyl yr un pryd fod mewn perthynas gywir efo Duw. 'Ni allwch wasanaethu Duw a Mamon.'

Yr hyn a'm trawodd oedd bod modd newid ystyr y frawddeg hon trwy ychwanegu un to bach a newid un llythyren. Mae'r ystyr newydd yn gwbl wahanol i'r gwreiddiol, ond yn llawn synnwyr ac yn hollol gydnaws hefyd â dysgeidiaeth yr Arglwydd Iesu Grist. Fedrwn chi ddyfalu beth yw'r newid hwnnw? Dim ond newid un llythyren sydd raid, cofiwch. A defnyddio'r to bach holl bwysig! Lwyddoch chi? Ynteu oes angen cliw arnoch? Newidiwch y llythyren gyntaf un!

O newid honno (ac o ychwanegu'r to bach) cewch y frawddeg hon: 'Mi allwch wasanaethu Duw â Mamon.' Mae'n gwneud synnwyr. Ac ydi, mae'n gydnaws â'r hyn a ddysgodd Iesu Grist mewn mannau eraill. Mae Iesu'n pwysleisio yn y Bregeth na fedrwn wasanaethu Duw ac arian, ond mae'r un Iesu yn ein hannog - yn rhai o'i ddamhegion, er enghraifft - i fod yn stiwardiaid da ac i ddefnyddio arian yn y ffordd orau bosibl. Mae hyd yn oed yn dweud wrth ei ddisgyblion, 'Gwnewch gyfeillion i chwi eich hunain o'r Mamon anonest' (Luc 16:9). Dweud a wna fod angen i ni ddefnyddio arian i wneud pob math o ddaioni. Os na allwn wasanaethu Duw ac arian, mi allwn wasanaethu Duw â'n harian (hynny ydi, gyda'n harian).

Mae Iesu'n galw ar ei ddilynwyr i wneud hynny. Mae am i ni weld ein harian a'n heiddo, ynghyd â phob dawn a gallu sydd gennym, fel pethau y medrwn eu defnyddio er clod i Dduw. Gelwir ar Gristnogion i sylweddoli bod y cyfan sydd ganddyn nhw i'w roi at ei wasanaeth Ef, er mwyn cynnal gwaith yr eglwysi a'r Efengyl, cefnogi gwaith elusennau Cristnogol, a chynorthwyo pobl mewn tloidi ac anghenion o bob math. Gweld cyfle i wasanaethu Duw â Mamon a wnaeth miloedd ar filoedd o bobl yn ddiweddar wrth gyfrannu at Apêl Nepal neu wrth gyfrannu at gasgliadau Wythnos Cymorth Cristnogol.

Wrth ddiolch am eiriau ein Gwardwr mentrwn ddiolch hefyd am llythyren a tho bach defnyddiol.

JOHN PRITCHARD

Canfod Gareth

Tydi'r tacla cymdeithasol cyfrifiadurol ma'n cysylltu'r byd. Mi welis i lun reit dda gan rhyw Gareth Parry o'r diffyg ar yr haul (eclips i chi a fi). Mi roedd na Gareth Parry yn yr ysgol hefo fi yn y 60au. Y Gareth iawn oedd o!



Mae'n siŵr i fod o wedi mynd i draffath i gael y llun. Na, roed hi'n rhy oer, felly ei dynnu o drwy'r ffenest!

Mae na ddeugain mlynedd ers i ni gysylltu olaf, mi aeth Gareth am Lerpwl a minnau am Aberystwyth - hogiau am y coleg.

Mae Gareth di bod yn Lloegr ers gadael Ysgol Brynrefail yn 1967 ond yn dal i gysylltu a'i frawd Gwilym yn Rhes Hermon, Llanrug yn ddyddiol a chael cysylltiad arall a Chymru drwy raglenni S4C.

Mae Gareth a'i fab Matthew wedi syrthio mewn cariad a ffotograffiaeth. Gareth ers iddo ymddeol a chael ei ddylanwadu gan y mab a enillodd gystadleuaeth genedlaethol am un o'i luniau.

Mi ddangosais y llun diffyg i Betsan, sy'n ddyflwydd, a doedd hi'n meddwl fod taid yn hollol wirion yn meddwl fod y lleud yn haul! Taid gwirion.

Beth am Gareth. Fe raddiodd o'r brifysgol ym Mangor ac yna aeth i'r brifysgol yn Lerpwl am flwyddyn.

Yna, fel llawer o'i oes, cymhwysodd fel athro Mathemateg. O gyfarfod Sue fe gafodd deulu bach o ddau fab, David (39) a Matthew (36) a merch, Emma (34).

Gorffennodd ei yrfa broffesiynol fel dirprwy, ac ynnau fel prifathro ei ysgol ac mae ganddo docyn tymor i dim pêl-droed Lerpwl ers chwarter canrif - dwi'n genfigennus o hynny!

GLIH

Blodau
Racca
PENISARWAUN

Rhodd o'r Galon
Yw Blodau

- Basgedi Planhigion
- Basgedi Crog
- Planhigion Gardd

Hefyd, Compost ar werth

Rhif Ffôn
(01286) 870605

RHOSTIO MOCHYN

Gyda saws afal a stwffin mewn rholiu

AR GYFER POB ACHLYSUR

DEWCS MAE O'N FLASUS

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

Pasg yn y Parc.

Cynhaliwyd 'Pasg yn y Parc' ar Ddydd Sadwrn Ebrill 4 rhwng 10.30 ac 1.00 y.p. ym Mharc Glynllifon ger Caernarfon. Diwrnod i deuluoedd ddod at ei gilydd a dysgu am wir neges y Pasg tra'n cael llawer o hwyl. Trefnwyd dan nawdd Cynllun Trobwynt a Chynllun Efe, sef dau fudiad Cristnogol lleol sy'n gweithio efo plant, ieuencid a theuluoedd.

Roedd y pwyslais ar deuluoedd yn un newydd i ni fel mudiadau Cristnogol - roedden ni eisiau symud i ffwrdd o'r hen fodel lle y byddai rhieni yn gollwng a chasglu eu plant wrth y drws a mewn ffordd rhoi cyfrifoldeb ar gyfer datblygiad ysbrydol eu plant yn nwylo gweithiwr a gweinidogion cyflogedig. Roedden ni am annog teuluoedd cyfan i dyfu mewn ffydd efo'i gilydd, gan mai'r teulu yw'r dylanwad mwyaf un ar fywydau plant a phobl ifanc.

Cawsom ymateb gwych gan deuluoedd efo rhyw 16 yn mynychu (y rhan mwyaf yn cofrestru ymlaen llaw, efo



y chydig yn dod ar y dydd) sef 80 o bobl. Dechreuodd y diwrnod am 10.30 efo Helfa Drysor o gwmpas y Parc lle oedd yn rhaid i deuluoedd gasglu llythrennau oedd yn sillafu'r gair 'Atgyfodiad'. Roedd hefyd amryw o gemau a

sialensiau ar hyd y llwybyr.

Ar ol i'r tim olaf ddychwelyd am 11.45 cafwyd sgwrs fer a syml gan Rachel ar bwysigrwydd y groes a'r atgyfodiad yn hanes y Pasg. Ar ol hyn roedd cyfle i bawb fwyta'u cinio a


chymryd rhan yn y gwahanol gweithgareddau crefft oedd a thema'r Pasg ganddyn nhw. Daeth y diwrnod i ben am tua 1.00 y.p. yn ffurfiol, ond roedd cyfle i deuluoedd dreulio gweddill y prynhawn yn y Parc os oedden nhw'n dymuno gwneud felly.

Diolch yn fawr iawn i'r holl wirfoddolwyr a roddodd mor hael o'u hamser. Diolch yn fawr i'r holl deuluoedd a ddaeth i wneud y diwrnod yn bosib. Diolch yn fawr i Barc Glynllifon a Chaffi'r Gath Ddu am adael i ni gynnal y digwyddiad. Ond wrth gwrs mae'r diolch mwyaf yn mynd i'r Arglwydd am ei holl ffyddlondeb gan na fedrwn wneud dim hebdo nac ar wahan iddo:

20 Clod iddo! Mae'n gwneud llawer iawn mwy na dim y bydden ni'n mentro gofyn amdano na hyd yn oed yn gallu ei ddychmygu! 21 Dylen ni sydd yn yr eglwys ac wedi'n huno gyda'r Meseia Iesu roi clod iddo am byth bythoedd! Amen. Effesiaid 3:20.



Ysgol Brynrefail



GWOBR EFYDD DUG CAEREDIN

Mae criw o ddisgyblion blwyddyn 10, ers Medi 2014, wedi bod yn rhan o weithgareddau amrywiol tu fewn a thu allan yr ystafell ddosbarth, yn ymwneud â Gwobr Efydd Dug Caeredin.

Mae pedwar cydran i'r wob: Sgil, Gwirfoddoli, Gweithgaredd Corfforol ac Alldaith.

Mae Kieran Davies, Llion Griffiths, Jordan Jones, Meirion Jones, Llion Roberts, Shaun Roberts a Gwilym Thomas yn gwneud yr ymarfer alldaith drwy ganwio a gwersylla ar Lyn Tegid ganol mis Mai ac yna'r alldaith go iawn yn canwio i lawr Afon Hafren ym mis Mehefin.

Eisoes y mae'r criw wedi cyflawni:

Sgil: Dysgu sgiliau awyr agored amrywiol dan arweiniad Siôn Lloyd a Gwydion Tomos o Wasanaeth Awyr Agored yr URDD
Gwirfoddoli: Ar fin cychwyn y cymal yma drwy wirfoddoli i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol dan arweiniad Simon Rogers

(Ceidwad Cymuned Gogledd Eryri).

Gweithgaredd Corfforol: Mynychu sesiwn ffitrwydd yn y Ganolfan Tennis (dan arweiniad Dewi Ferrero).

Ynghyd â'r uchod maent wedi cael y profiad o gydweithio gydag Anna Williams (Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru) wrth blannu perllan o goed afalau ym Mhlas Pengwaith, Llanberis 2/3/15.

Er y glaw, er yr oerni, er y gwlychu, er y deffro dan babell gan fod eraill yn chwyrnu, mae'r criw i'w canmol am eu dyfalbarhad a'u parodrwydd i ymroddi gant y cant i bob sialens a osodwyd o'u blaen. A'r oll cofiwch a gwên ar eu hwyneb !

Wrth gwrs, ni fyddai dim o'r hyn yn bosibl heb ymroddiad Mr Siôn O. Jones, Pennaeth yr Uned Cynhwysiad, gyda'i drefniadau trylwyr a'i frwdfrydedd di ben draw.



“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”

CYNGERDD PATAGONIA



Eleni y mae tri disgybl o Ysgol Brynrefail yn teithio i Batagonia fel rhan o brosiectau gwirfoddol Urdd Gobaith Cymru.

Ym mis Awst y mae Siôn Emlyn Parry, sy'n hanu o Landdeiniolen, yn teithio gyda sioe gerdd o'r enw Mimosa fydd yn cael ei pherfformio yn y Wladfa ar y 10fed o Awst. Bydd y sioe yn cael ei pherfformio hefyd ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol cyn mynd i'r Wladfa.

Ym mis Hydref bydd Nia Haf Williams, Llanrug, ac Adam Bragan, Bethel, yn teithio gyda'r Urdd i'r Wladfa i wneud gwaith gwirfoddol yno. Byddant yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd yn dysgu Cymraeg, ymweld â thrigolion y Wladfa o dras Cymraeg ac yn cynorthwyo gyda phrosiectau cymunedol. Bydd y ddau hefyd yn cynrychioli Urdd Gobaith Cymru a Chymru yn Eisteddfod y Wladfa.

Y mae costau teithio yn frawychus i'r tri ohonynt, £2,700 yr un, ac maent wedi bod yn cynnal digwyddiadau cyson i godi arian tuag at eu hachos. Y mae Cyfeillion Ysgol Brynrefail, Cronfa'r Chweched Dosbarth wedi rhoi cyfraniad a hefyd cafwyd casgliad yn ystod diwrnod di-wisg ysgol.

Ar y 30 ain Ebrill fe gynhaliwyd cyngerdd yn Neuadd Ysgol Brynrefail a'r rhaglen yn cynnwys doniau'r ysgol fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerffili ddiwedd mis Mai. Bu'r tri yn cymryd eu tro fel arweinyddion y noson yn

cyflwyno rhaglen fel a ganlyn:
Gair o groeso - Arweinydd Nia Haf
Band Chwyth Brynrefail
Llefaru unigol - Leisa Gwenllian
Parti Merched 7-9
Angylion Kelly Hyn

Arweinydd Adam Bragan
Ymgom Blwyddyn 10-13
Deuawd Bl 10-13
Parti Llefaru 7-9
Unawd Corn - Owain Llestyn Thomas

Arweinydd Sion Emlyn
Unawd o sioe gerdd - Megan Crisp
Unawd piano bl 10-13 - Math Roberts
Angylion Kelly Iau
Côr Blynyddoedd 7-9

Er nad oedd y neuadd yn orlawn fe gafwyd cynulleidfa frwdfrydig yn gwerthfawrogi cyfraniadau'r disgyblion a bu cymeradwyaeth hael ar ddiwedd pob eitem. Ac ar ddiwedd y noson fe godwyd £588 fydd yn cael ei rannu rhwng y tri ohonynt.

DRAENOG.



Y pennawd yn y Daily Post oedd “*What is this concrete and steel monstrosity doing on a mountainside in the heart of Snowdonia?*” Roeddwn yn meddwl mai cŵyn am Hafod Eryri oedd gan Gymdeithas Eryri, wedi’r cwbl, mae wedi ei adeiladu o goncrid a dur, ac mae ar gopa mynydd uchaf Eryri. Ond na! Cwyno maent am y bont newydd (dyflwydd oed) a adeiladwyd dros yr Afon Goch yng Nghwm Tŷ Du yn dilyn y llifogydd eithriadol a sgubodd yr hen bont i ebergofiant dair blynedd yn ôl. Mae’r bont wedi ei thrwsio ar gost o £48,000, ac yn ôl llefarydd ar ran Cyngor Gwynedd, wedi ei hadeiladu i gydymffurfio a safonau cenedlaethol cydnabyddedig. Ni dderbyniodd y Cyngor unrhyw

gŵyn ynglŷn â’r bont nes i Gymdeithas Eryri leisio’u barn. Mae’r bont yn cario llwybr ceffyl ar draws yr afon a llwybr cyhoeddus sy’n rhan o rwydwaith llwybrau cerdded y pedwar dyffryn.

Yr hyn sy’n syndod yw ei bod wedi cymryd cymaint o amser i aelodau Cymdeithas Eryri sylweddoli fod y bont wedi ei chodi ers bron i ddwy flynedd a bod cannoedd o gerddwyr a cheffylau wedi ei chroesi ers hynny heb erioed gysidro ei bod yn anaddas i’r tirwedd.

Ond, dyna fo, rhaid cyrraedd y bont cyn sylweddoli ei bod yno, gan fod llethrau uchel o’r naill ochr yn ei chuddio rhag bod yn weladwy o bellter.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

O Bont Pen’llyn Mai 1af 2015, 3:00 og y pnavn

Ynni, o’r chwythad cychwynnol – y nerth
sy’n nerth byd naturiol
yn wefr, sy’n wefr ddi-droi’n ôl,
y fegin anorchfygol.

Ynni sy’n sglein o’r gwynnin – o heulwen
a’r golau ar egin
’r ôl cynhebrwng blwng a blin
enhudda wawl drwy’r priddin.

Egni a’r ynni yn un – yn y gell,
y gallu o’r cychwyn
boed goedwig neu blanhigyn
O gloi haul i fwydo’i hun.

Anweledig ond gweladwy: - ynni
wna enaint cofiadwy,
orlawn dyffryn a’r arlwy
diffuant moliant a mwy.

Yr oeddynt i gyd yno mewn gwahanol stad o flaendarddu. Gwyrddlas bob un, ond bob un ei wyrddlas ei hun. Tynerwch y fedwen, dyfnder y wernen, goleuni yr helygen, cyfoeth dwfn y deri, duwch gwyrdd y pinwydd, syndod glesni’r larwydd, a’r fasarn yn lasgoch wyrdd... palet, tapestri... ond am ba hyd cymysgfa’r gwyrddlas gwythiol? O ddiwrnod i ddiwrnod aeddfeda a dwysa, a daw Mehefin a bydd yr haf yma. Ond heddiw yr oedd yn wir wanwyn o bont Pen’llyn.



Alun Fred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunfred.jones@cymru.gov.uk

Diolch Diolch yn fawr iawn i'r Parch John Pritchard am roi yr hawl imi gael benthg y Festri i blygu'r Eco y mis diwethaf, er na chefais gymorth gan neb o bentref Deiniolen i wneud y dosbarthu. Yr unig bentref yn ardal yr Eco imi orfod cael cymorth o ardal arall, sef Llanrug. Diolch o galon i Hefin, sydd yn barod bob amser i roi ei ysgwydd o dan y baich ac yn barod i wneud cymwynas bob amser. Diolch yn fawr iawn, Hefin.

Marwolaeth Bu imi grybwyll yn yr Eco y mis diwethaf am farwolaeth ddisymwth iawn ar y 13eg o Ebrill yng Nghartref Bryn Pistyll, Bangor, ac o Dan y Bwlch, y ddiweddar Mrs Alice Myfanwy Griffith oedd newydd gael ei phen-blwydd yn 91 mlwydd oed ym mis Mawrth. Priod y diweddar Andrew, a mam gariadus iawn i Ann ac Iolo a'u teuluoedd, a chwaer annwyl iawn i Mrs Megan Morris, Minffordd gynt, ac o gartref Plas Garnedd, Llanberis bellach, a hithau ar drothwy ei phen-blwydd yn 100 oed. Fe fu i Mrs Morris allu dod i'r cynhebrwng gyda chymorth y plant, Eurwyn a Marsli. Brafiawn oedd ei gweld yno ac yn edrych mor dda.

Bu'r cynhebrwng yn Eglwys Sardis, lle oedd yn agos iawn at galon Alice a hithau wedi ei gadw i fynd ar hyd ei hoes. Yna yn dilyn yn Amlogfa Bangor. Yr oedd y capel yn orlawn ar brynhawn brafiawn o Ebrill.

Brafiawn oedd gweld cymaint o blant yr ardal wedi dod adref i'r angladd ac mae'n rhaid dweud fod hyn yn digwydd bob tro y mae angladd un o blant yr

ardal. Maent yn dal i gofio yr hen ardal. Diolch yn fawr iawn iddynt, mae yn andros o brafiawn eu gweld a chael rhyw sgwrs hefo nhw.

Roedd y gwasanaeth yng ngofal ei gweinidog, y Parch Olaf Davies, y Parch William John Lewis a'r Canon Idris Thomas. Brafiawn oedd gweld y Parch William John Lewis wedi gwella yn ddigon da i ddod i'r angladd ac i gymryd rhan yn y gwasanaeth. Ef ac Alice wedi cael eu dwyn i fyny hefo'i gilydd yn Sardis a'r Canon Idris Thomas yn un o blant yr ardal ac yn adnabod Alice yn dda.

Ganwyd Alice yn Minffordd ac yna symud ar ôl priodi i Tan y Bwlch. Rhoddodd oes o wasanaeth clodwiw i'r ardal. Gyda'i marwolaeth mae talp o hanes Dinorwig wedi mynd. Fe fydd colled fawr ar ei hôl yn y cartref, yn y gymdogaeth ac yn y capel. Colodd ei mam pan yn 16 oed a chofir am ei gofal arbennig am ei brawd, Abram, a fu farw yn 1977.

Bu yn gweithio yn y Llyfrgell yn Neiniolen am flynyddoedd ac yr oedd yn anodd cael neb gwell na hi. Roedd yn Fedyddwraig i'r carn. Byddai yn mynychu cyfarfodydd ei henwad ar hyd a lled Cymru a'i diweddar wr yn ei gyrru o fan i fan, fel y byddai galwad.

Coffa da ohoni. Bydd colled fawr i'r ardal ar ei hôl ac yn sicr i Ann ac Iolo. Ann wedi mynd a dod o'r de i'r gogledd lawer gwaith yn ystod ei arhosiad ym Mryn Llifon ac wedi bod yn ardderchog hefo hi, a Iolo yn galw yn amal iawn hefo hi. Y teulu i gyd wedi bod yn

ffyddlon iawn iddi ar hyd ei gwaeledd.

Ann, Iolo a'r teulu i gyd, gobeithio y cewch nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau tywyll yma. Mae gennych lawer o atgofion melys, gan obeithio y bydd yr atgofion yma yn help ichwi. Mae'r atgofion yma gennych ac yn sicr, nid ânt yn angof.

Derbyniwch gydymdeimlad yr ardal yn eich profedigaeth lem. Yn meddwl llawer amdanoch a gobeithio y cewch Dduw yn agos pan ddaw hiraeth. 'Cwsg a gwyn eich byd, Alice.'

Pen-blwydd Cyn y daw'r Eco nesaf allan o'r wasg fe fydd Mrs Megan Morris, Minffordd gynt, a Phlas Garnedd yn awr, wedi cael ei phen-blwydd yn gant oed. Fe fydd yn gant ar Fehefin 11eg. Gobeithio y bydd yr iechyd yn cadw ac y gallwch fwynhau eich diwrnod, gan obeithio nad ewch dros ben llestri! Pen-blwydd Hapus iawn ichwi a gobeithio am lawer arall a phob bendith.

Arholiadau Wel y mae tymor yr arholiadau wedi dod unwaith eto. Ar y funud yma mae'r tywydd o'ch plaid. Gwnewch eich gorau, nis oes modd gwneud dim mwy. Gobeithio pan ddaw diwedd yr arholiadau y bydd y tywydd wedi cynhesu pryd y gallwch ymlacio a gobeithio pan ddaw y canlyniadau y byddwch ar ben eich digon.

Hwyl fawr a gwyliau hapus ichwi.

Eisteddfod Caerffili a'r Cylch Gan fod Eisteddfod yr Urdd wrth y drws, yr ydym yn dymuno y gorau i bawb yn

ardal yr Eco fydd yn cystadlu yn yr eisteddfod. Cofiwch eich bod wedi gwneud yn dda iawn i gael cyrraedd yr eisteddfod, ac os na fydd llwyddiant, cofiwch fod colli yn yr eisteddfod yma yn gryn glod. Dymuniadau gorau i chi i gyd a mwynhewch eich hunain, ac os y daw llwyddiant, gorau oll.


Diolchiadau Dymuna teulu y ddiweddar Alice Griffith, Tanybwlch, ddiolch o galon i deulu, ffrindiau a thriolion yr ardal am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth, ac am y llu cardiau a rhoddion a dderbyniwyd er cof amdani.

Diolch am eich presenoldeb yn yr angladd ac am y gwasanaeth teimladwy yn nwylo y Parch Olaf Davies, y Parch W.J. Lewis a'r Canon Idris Thomas. Diolch i'r cyfeilyddion, Mrs Lona Lewis a Mr Wyn Williams.

Derbyniodd mam ofal tyner gan feddygon lleol, tîm gofal Caredig, Hosbis yn y Cartref a Chymdeithas Marie Curie. Cafodd yr un gofal canmoladwy yng nghartref Nyrsio Bryn Llifon hyd at ddiwedd ei hoes. Diolch yn fawr.

Yn olaf diolch i Dylan a Meinir Griffiths, Tros y Waun, am y trefniadau trylwyr ac urddasol.

Cydymdeimlwn ag Olwen (Tŷ'r Ysgol gynt) wedi colli ei mam yng nghyfraith yn Amlwch. Fe fu iddi farw yn hynod o sydyn. Gobeithio y byddwch fel teulu yn gallu cofio y pethau gorau a fu ichwi ei mwynhau hefo hi, ac y cewch nerth i ddal y golled. Yn meddwl llawer amdanoch yn eich dyddiau tywyll.



**GWAITH
COFFAOL
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833**

Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

*Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaeth Yr Holl Ardal*

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Y Ganolfan



Yn dilyn cyhoeddi lluniau o waith yr arlunydd Andy Birch yn ein rhifyn diwethaf cyhoeddwn fwy o waith sydd wedi ei wneud yn ystod y mis a aeth heibio. Ail grewyd un o brif luniau'r diweddwr Neville Foulkes yn ogystal â chofeb i T. Rowland Hughes a'r geiriau 'Tydi a roddaist'. Noddwyd cofeb T. Rowland Hughes gan Gyngor Cymuned Llanberis. Peintwyd geiriau'r emyn gan blant Ysgol Dolbadarn a dymunwn ddiolch iddynt am eu gwaith a'u brwdfrydedd. Mae fideo o'r gwaith i'w gael ar y canlynol (youtube)

<https://youtu.be/pMZi8WnAScU>

<https://www.youtube.com/watch?v=M-7Gu9uM9HY>

Y Ganolfan. Mae pwyllgor Y Ganolfan am apelio at unrhyw un neu rai sydd â diddordeb i gysylltu gydag aelodau o'r pwyllgor i drafod dyfodol y neuadd snwcer. Does bron neb wedi defnyddio'r adnoddau gwych sydd ar gael yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Nid oes gan y pentref dim yn y gynghrair a does yna neb yn gofalu am y ddau fwrdd.

Pwy fydd yma mhen can mlynedd????????????

Flynyddoedd yn ôl cefais y fraint o fod yn Brifathro ar Ysgol Gynradd Penmachno, ger Betws y Coed, a threuliais ddwy flynedd ar bymtheg o flynyddoedd hapus iawn yno.

Yr oedd y bywyd gwledig hamddenol yn fy siwtio i'r dim a byddwn wrth fy modd yn cymysgu â'r ardalwyr caredig. Ond dychwelyd yn ôl i fy hen gynefin fu fy hanes gan dreulio gweddill o'm gyrfa yn bennaeth ar Ysgol Dolbadarn, Llanberis. Er i waeledd fy lletu braidd tua diwedd y daith ar lwybrau dysg, yn wir cefais gyfnod hapus yn yr ysgol ar pentref. Cymaint fel na allai Mattie na minnau feddwl am symud i fyw o hen Bentrif Bach Llanber a'i bobl. Ac fel cân Dafydd Iwan, 'Yma yr ydym o hyd'.

Nid adrodd hanes fy mywyd yw y bwriad o ysgrifennu yr ychydig eiriau hyn, ond yn hytrach trafod anrhydedd a roddwyd i mi ym Mhenmachno. Wesla ydw i hyd y carn ac yr oedd Achos bywiog yn y pentref ychydig tros hanner canrif yn ôl. Roedd Capel Bethania yn adeilad hardd, yn meddu ar weinidogion ymroddgar. Ond dyma ffaith bwysig, Ritchie Thomas, y tenor enwog oedd y codwr canu. Oedd, yr oedd yn bleser myned i'r oedfaon i glywed y llais cyfoethog a swynol yn treiddio mor gryf trwy'r adeilad. Doedd dim gwahaniaeth os oedd y bregeth yn drom a beichus ar brydiau, yr oedd canu Ritchie yn ein swyno bob amser. Gyda llaw, bu'r tenor enwog yn ei swydd o godi canu ym Methania am dros ddeugain mlynedd. Yn aml iawn, ar nos Sadyrnau byddai yn canu ar hyd a lled Cymru, ac weithiau ni fyddai yn cyrraedd gartref hyd oriau mân y bore. Serch hynny, gellid bod yn siwr ei fod yn Oedfaon y Sul yn cynnal ei swydd.

Yn y flwyddyn 1966 ymfudodd yr organyddes o Benmachno i fyw i Awstralia ac felly, niod oedd neb i chwarae'r organ bibellau. Daeth Ritchie ataf gan fy mod yn chwarae o'm pen ar y piano yn yr ysgol a gofynnodd i mi a fuaswn yn myned at yr organ. Yr unawdydd enwog yn gofyn i mi o bawb i chwarae'r offeryn. Na, oedd yn ateb ar y cyntaf, ond yn y diwedd bûm yn ufudd i Ritchie, gyda'r amod fy mod i gael dewis y tonau bob Sul. O dipyn i beth a thrwy lafur caled a chwysu chwartiau yn ogystal â gwersi gan Ritchie fe lwyddais, er syndod i bawb, yn arbennig i mi fy hunan. Deuthum i chwarae'r organ yn eithaf derbynol ac yr wyf hyd heddiw yn ymfalchio fy mod wedi cyfeilio i Ritchie Thomas annwyl.

Ond nid sôn amdanaf fy hunan gyda'r organ yw amcan yr erthygl hwn chwaith, ond yn hytrach ei deitl. Un o hoff emynau y dyddiau



gynt yw yr emyn 'Pwy fydd yma mhen can mlynedd?' Emyn a anfarwolwyd gan Ritchie Thomas. Cyfeirio a wna'r cwestiwn pwy tybed fydd yn addoli Crist yn ein capeli ymhen canrif.

Ofnaf bod yn rhaid aralleirio y cwestiwn erbyn hyn gan feddwl, gyda thristwch a phryder, pwy fydd yn mynychu ein haddoldai ymhen ychydig iawn o flynyddoedd. Mae Capel Bethania, Penmachno, wedi cau ers blynyddoedd a'r adeilad yn dŷ annedd erbyn hyn. Yn wir, hyn yw tynged sawl adeilad ar hyd a lled Cymru. Yr Achos yn darfod yn fan ar fan, yr aelodau wedi myned i gapeli eraill neu wedi peidio â mynd i unrhyw addoldy ar y Sul.

Parhad LLANBERIS

Gan fo mod yn byw bellach yn Ffordd Capel Coch, yr olygfa a welaf gyntaf wedi myned i'r ffordd yw Capel Coch. Adeilad hardd a chadarn yn sefyll allan ymysg adeiladau eraill. Y mae rhyw urddas yn perthyn iddo a chredaf ei fod yn un o'r adeiladau harddaf yng Ngwynedd. Cefais y fraint o arwain gweithgareddau o gymanfa ganu i Noson o Gân yn y capel sawl tro. Yr oedd y noson hon yn boblogaidd tros ben yn ystod blynyddoedd y Carnifal yn Llanberis. Oedd, yr oedd Capel Coch yn orlawn. Deil lle i eistedd wrth gant o bobl yno, a chofiaf feinciau yn cael eu cario i ychwanegu at hynny. Dyma hanes cynulleidfwr Sul yn y capel hefyd. Erbyn hyn mae'r Eglwys yn cyfarfod yn y Festri, adeilad helaeth a digonedd o le ynddo. Bu'n rhaid cau drysau y capel ond y mae'r Achos yng Nghapel Coch yn dal ymlaen ac y mae'r Gweinidog, Swyddogion a'r Aelodau ffyddlon yn addasu y festri i fod yn adeilad o safon. Peidier neb â chredu fod Achos Crist yng Nghapel Coch wedi dod i ben. Gwahoddir chwi i'r oedfaon i brofi hynny.

Ond yr hyn sydd yn peri pryder i mi yw dyfodol y capel mawr ei

hunan. Mae'n wir fod hysbysiad o flaen yr adeilad yn datgan fod y capel ar werth. Ond araf iawn yw'r marchnata amdano. Y mae'n adeilad mor fawr ac anodd iawn fuasai ei addasu i fflatiau. Rhaid cadw mewn cof hefyd fod Capel Coch tan lygaid barcud Cadw, ac felly tasg galed yw cael unrhyw gyfaddawdu gan y mudiad hwn.

Pryder enfawr i mi yw wynebu y ffaith y gallai Capel Coch syrthio'n adfail ac yng gartrefi'r tylluanod neu adar di-adenydd. Dyna gofeb hagr a thruenus pe buasai i hyn ddigwydd; adeilad hardd a chysegredig yn domen o gerrig a llwch. Hwyrach ein bod ni yr aelodau wedi dod i benderfyniad i beidio defnyddio y capel ar ormod o frys, neu nad oes diddordeb yn perthyn gan rai ohonom yn yr Achos.

Mae yn hen bryd i ni wir sylweddoli erchylltra'r sefyllfa gan geisio ymladd yr anawsterau ac nid ildio yn dawel a dweud 'Fel'na ma hi mewn lot o lefydd rwan.'

Sut mae hi'n mynd i fod yn hanes Capel Coch yw sail fy ofnau. A yw yn mynd i'r un cyfeiriad â Llys Ifor Hael gynt pryd y disgrifid y man rhwysgfawr hwnnw fel 'mieri yn lle bu mawredd'.

John H. Hughes

Diolch. Dymuna John, Cheryl, Karen a'r teulu ddiolch am bob cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt ar ôl eu profedigaeth o golli gwraig, mam a nain annwyl, sef Olga Williams, Rock Terrace. Diolch hefyd i'r Parch. John Pritchard a Bethan Bryan (Organyddes) am eu gwasanaeth ac i John Huw Hughes a Katie (wyres) am eu teyrngedau. Diolch i staff Ward Alaw am eu gofal tyner. Mawr ddiolch i Gwynfor Jones o E.W. Pritchard am y trefniadau a'i garedigrwydd. Casglwyd £1000 tuag at Ward Alaw. Diolch o galon i bawb.

Diolch Diolch arbennig i Megan Williams, 12 Tŷ Du, wedi iddi roi'r gorau i ddsbarthu'r Eco yn ei hardal hi o'r pentref ar ôl nifer fawr o flynyddoedd.

Mi fydd Huw a Margaret Griffiths, Brynteg, yn dosbarthu yn ei lle.

Diolch Dymuna Dilys Mai Roberts, Yr Haciau,

Penisarwaun, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da, ac i aelodau Parti Bytholwyrdd am y cinio ardderchog ar achlysur ei phen-blwydd arbennig ar y 6ed o Fai. Diolch i Mr John H. Hughes am y penillion hyfryd. Diolch yn fawr iawn i chwi gyd.

Llongyfarch Dymuna'r pwyllgor ddiolch a llongyfarch plant ac athrawon Ysgol Dolbadarn am y cyngerdd gwych a gynhaliwyd yn y Ganolfan yn ddiweddar. Dymunwn bob llwyddiant iddynt yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerffili.

Diolch:

Dymuna Myrddyn, Ted, John, Jane a theulu'r ddiweddar Annie Myfanwy Pritchard, 'Orwig View', 1 Ffordd Padarn ddiolch am bob cydymdeimlad a estynnwyd iddynt ym mhob ffordd gan ffrindiau a chymdogion yn

eu profedigaeth o golli priod, mam, nain a hen nain annwyl ddydd Sadwrn, Mawrth 21, yn 90 mlwydd oed. Diolch yn fawr i'r gofawr cartref am eu gofal tyner ohoni ar ei haelwyd dros y blynyddoedd; i bawb yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun am y gofal da a gafodd yno dros y misoedd diwethaf; ac i feddygon a staff Meddygfa Llanberis am eu gofal hwythau. Diolch hefyd i'r teulu estynedig am bob ffyddlondeb a charedigrwydd. Diolch i'r Parchgn Euros W Jones a Robert O Roberts, ynghyd â Mrs Bethan Holding yr organydd, am eu cymorth

yn y gwasanaeth angladd a gynhaliwyd yn Capel Coch ddydd Gwener, Mawrth 27. A diolch arbennig i Gwynfor Jones, E W Pritchard, am ei gefnogaeth ac am drefniadau trylwyr yr angladd. Diolch hefyd am y rhoddion a dderbyniwyd at Uned Clefyd Parkinson Ysbyty Eryri.

Diolch:

Dymuna Gethin ac Annabel Pritchard (Cilfynydd, Llanberis gynt) ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur genedigaeth Ella Grace Annie Pritchard.

OEDFAON SUL CAPEL COCH AM FIS MEHEFIN

7fed:	Oedfa 10yb Mr W.M. Roberts Syh
14eg:	Gweinidog 10yb Oedfa MOLI 5yh
21ain:	Oedfa 10yb Parchedig Euros W. Jones Syh
28ain:	Oedfa Deulu 10.30yb



SEFYDLWYD DROS
20 MLYNEDD

**SYMUD
A CHADW**

CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol

01248 430126 • 07786176866
thomasmeredydd@btinternet.com

J

**Gwasanaeth Gwres
a Plymio**

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

"RYDYM ANGEN MWY O
FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



DIONI.

http://dioni.co.uk
tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk



Llongyfarchiadau i Elain Alaw Morgan, Dolwen, Ffordd yr Orsaf, am ddod yn gyntaf mewn cystadleuaeth marchogaeth yn yr Wyddgrug. Bydd Elain yn mynd i lawr i'r genedlaethol yn Hartpury, Gloucester, ym mis Gorffennaf. Hefyd daeth yn gyntaf yng ngala nofio canolfan hamdden Caernarfon yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Elain Alaw Morgan, Dolwen, Ffordd yr Orsaf, am ddod yn gyntaf mewn cystadleuaeth marchogaeth yn yr Wyddgrug. Bydd Elain yn mynd i lawr i'r genedlaethol yn Hartpury, Gloucester, ym mis Gorffennaf. Hefyd daeth yn gyntaf yng ngala nofio canolfan hamdden Caernarfon yn ddiweddar.

Profedigaethau Cydymdeimlwn, yn eu profedigaeth, â Darryl a Sian Griffith, Ceri, Lois a Hari, Ffordd Glanffynnon, yn dilyn marwolaeth tad Darryl, sef Roy Griffith, Llanberis. Colled fawr i chi i gyd.

Yn frawychus o sydyn bu farw Sylvia Jones (Orritt gynt) 28 Bro Rhyddallt. Cydymdeimlwn yn arw ag Angela, Colin, Bethan a'r wyrion a'r wyresau, Glyn, Erin, Caio, Griff a Cadi. Roedd yn fam a nain hynod iddynt a mawr fu eu gofal amdani. Cydymdeimlwn hefyd â'i brawd a'i chwaer yng nghyfraith a'r teulu, Leslie a Hilda Orritt, Cwm-y-glo.

Yn dawel ar ôl gwaeledd byr, bu farw Alun Pierce, 14 Bryn Moelyn. Gŵr ffyddlon ac annwyl i Maureen, llys dad caredig i Iona a Dylan a llys daid hoffus iawn i Lucas, Nate a Mollie bach. Bydd colled fawr iddynt ac i'w frodyr a'i chwaer a'u teuluoedd a llawer iawn o gymdogion a ffrindiau. Roedd y nifer oedd yn bresennol yn ei angladd yn dyst i'w boblogrwydd. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â chwi oll.

Dathlu Pen-blwydd Priodas Llongyfarchiadau mawr i Ron a Liz Fleming, Bryn Moelyn, sydd newydd ddathlu eu Priodas Ruddem. Pob dymuniad da i chi.

Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau a phen-blwydd hapus i Andrea Pugh, Hafan Elan, sydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 30 oed. Hwyl fawr a mwynha y dathlu.

Plaid Cymru Enillwyr Clwb Cant Mai oedd: 1. Eurwen Rowlands, Llys Forgan; 2. Carrie Owen, Tŷ Fry.

Cymorth Cristnogol Dymuna Carys Parry, Gwynant, Ffordd yr Orsaf, ddiolch yn ddiffuant i bob un a fu'n casglu o ddrws i ddrws eleni. Diolchir hefyd i bawb gyfrannodd eto ar yr achos teilwng hwn. Mae'r arian yn cael ei gyfrif ar hyn o bryd ac fe gawn wybod y cyfanswm yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Genedigaeth Llongyfarchiadau mawr i Edgar a Pat Jones, Tŷ Ni (Swyddfa'r Post gynt) ar ddod yn daid a nain i Isobelle Llewelyn Jones ar y 9fed o Fai. Merch fach ydyw i Martin a Lyndsey o Llansamlet, Abertawe. Pob dymuniad da i chi i gyd.

Cronfa Nepal. Mae angen gwirfoddolwyr i wau capiau, menyg a.y.y.b. ar gyfer dioddefwyr y ddaeargryn yn Nepal. Cysylltwch efo Eirianwen Thomas ar 673515.

Blodau Racca
PENISARWAUN

Rhodd o'r Galon Yw Blodau

- Basgedi Planhigion
- Basgedi Crog
- Planhigion Gardd

Hefyd, Compost ar werth

Rhif Ffôn
(01286) 870605

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER POB ACHLYSUR

DEWCS MAE O'N FLASUS

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

Merched y Wawr

Nos Fawrth, Mai 12fed, estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r Cyfarfod Blynyddol. Cychwynwyd y noson gyda Chàn y Mudiad. Derbyniwyd ymddiheuriadau ac anfonir cofion annwyl at Helen Parry, Carys a Jean. Llongyferchir Gwenda ac Iwan ar ddod yn nain a thaid balch i Erin Enlli. Cadarnhawyd cofnodion 2014 fel rhai cywir. Bu'r dasg o ethol swyddogion yn hwylus dros ben, ynghyd ag aelodau'r pwyllgor a chynrychiolwyr Celf a Chrefft, Anabl, Dysgwyr, Gohebydd y Wasg a Dosbarthwr y Wawr. Apelir am gefnogaeth i Ffair Haf Capel Ebeneser, Caernarfon ar Fehefin Sed am 10.00 y bore er budd Nam Golwg Ieuencid. Bydd stondinau bric-a-brac, cynnyrch cartref, teisennau, raffl a phaned a chyfle i gymdeithasu. Llongyferchir Cangen Deiniolen am lwyddo i ddenu'r mwyafrif o aelodau trwy Gymru. Mae'r croeso yr un mor gynnes yma i aelodau newydd. Beth amdani fis Medi nesaf? Cafwyd cais i ddefnyddio adnoddau Cangen Llanrug ar gyfer Noson Gelf a Chrefft ar

Fehefin 12fed a chytunwyd yn unfrydol i gydweithredu. Bydd yn ofynnol i'r rhai sy'n cystadlu ddod erbyn 6.30 i'r Sefydliad Coffa gyda gweddill yr aelodau i gyrraedd am 7.00. Yn ystod y noson bydd arddangosfa Gosod Blodau a phaned a bisged. Bydd casgliad blynyddol o dŷ i dŷ Sefydliad y Galon yn digwydd rhwng Mehefin 13 - 26 a diolchir i'r rhai sy'n barod i helpu yn Llanrug, Tan-y-coed a Cheunant. Gellir cysylltu â Linda, Trefnydd y Casgliad ar 01286 673838. Bu rhai o aelodau'r gangen yng Ngŵyl y Pum Rhanbarth ar Sadwrn, Mai 9fed, a dymunir llongyfarch Meirwen Lloyd, Llywydd y Pum Rhanbarth ar ei llywyddiaeth broffesiynol a hamddenol. Cafwyd eitemau clodwiw gan Siân Wheway, Dafydd a Math, gyda sgwrs a chàn a balch iawn oedd Meirwen o gael croesawu teulu mor gerddorol o Lanrug. Cafwyd orig ddifyr iawn yng nghwmni John Pierce Jones yn olrhain 'Beth sy'n gwneud i mi dician'. Ymhyfyrdai yn ei fagwraeth yn Niwbwrch a'r cyffiniau a'r dylanwadau

amhrisiadwy a gafodd ar hyd ei yrfa. Roedd Meirwen yn falch o gael crybwyll mai yn Llanrug roedd ei gartref yn y gyfres C'mon Midfild. Bu'r arbrawf o gael cyfweiliad yn hynod lwyddiannus. Bu'r darlledwr Aled Hughes yn holi a stilio Elin Haf Davies, chwaraewr rygbi merched i Gymru a Dr Dyddgu Hywel am herio'r byd. Gorffennwyd y diwrnod gyda chyflwyniad o ganeuon ysgafn a'r 'stori tu ôl i'r gân' gan Band 6 a balch oedd Meirwen o gael cyflwyno aelod o'r band, Gethin Griffiths o Fethel, cyn ddisgybl o Ysgol Brynrefail - un medrus iawn ar y piano. Gorffennwyd y diwrnod gyda Chàn y Mudiad. Dymuna'r gangen longyfarch yr Athro Angharad Price ar ei Chadeiryddiaeth ym Mhrifysgol Bangor, un sydd bob amser yn cydnabod dylanwad ei magwraeth gartref, Ysgol Bethel ac Ysgol Brynrefail. Llongyfarchiadau mawr Angharad. Dymunwn ddiolch i Julire, Pat a Non am ofalu am y baned. Enillydd y raffl oedd Margaret. Nos Fawrth, Mehefin 9fed, bydd Trip Blynyddol y gangen.

Gofynnir yn garedig am y fwydlen a'r arian wythnos ymlaen llaw i Nan. Bydd y bws ym Mhenisarwaun am 5.45 ac yna yn Llanrug am 6.00. Byddwn yn tynnu llun y gangen ar gyfer Y Wawr. Diolchiadau Dymuna Marueen, Dylan a Iona ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl iawn. Diolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am fod mor garedig a bod yn gefn iddynt yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Diolch i feddygon a staff Bron Seiont a nyrsys Hosbis yn y Cartref. Diolch i'r Parch Marcus Wyn Robinson am ei wasanaeth ddydd yr angladd a Mrs Eurwen Darwood am ei chyfraniad graenus wrth yr offeryn. Diolch hefyd i Dylan a Meinir Griffith, Penisarwaun am eu caredigrwydd gyda'r trefniadau a'r cymorth yn hyn oll. Yn ychwanegol, hoffwn ddiolch i bawb am bob rhodd a dderbyniwyd er cof am Alun. Codwyd y swm o £1260 tuag at Hosbis yn y Cartref. Diolch i bawb.


LLYFR NEWYDD

Cynaeafu

SARAH KELLY

Yn dilyn llwyddiant ei hunangofiant *Deilen ar yr Afon*, mae'r awdur yn awr wedi ychwanegu ato hefo'i hanes yn fyfyrwr yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, ac yna'n gweithio yn Adran Efrydiau Allanol y Brifysgol am 36 mlynedd, o 1959 hyd 1995. Cynnwys y llyfr hefyd nifer o storiâu ac ysgrifau o'i heiddo wedi ei hel at ei gilydd - 'Cynaeafu' fel petai. Mae'r cwbl yn amrywiaeth ddarllenadwy a difyr.

Ar gael yn awr drwy eich siop lyfrau Cymrage. Pris £8.95 (neu drwy'r post o Palas Print, 10 Stryd y Plas, Caernarfon. LL55 1RR Ffôn: 01286 674631. Cost postio: £1.20)



Capel y Rhos - Oedfaon mis Mehefin

- 7: Parch Marcus Wyn Robinson, y Gweinidog
- 14: Parch Pryderi Llwyd Jones
- 21: Y Gweinidog
- 28: Mr Andrew Settatree



Gwesty Dolbadarn Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

Stori Cymru:

Hanesion a Baledi gan Myrddin ap Dafydd

Mae awdur casgliad o dros ddeg a thrigain o faledi yn codi o straeon o hanes Cymru a'i phobl yn falch pan fydd plant a phobl yn dotio wrth ddod ar draws darn newydd o'n gorffennol. 'Ond mae hefyd yn destun gofid imi,' meddai Myrddin ap Dafydd, awdur Stori Cymru.

'Ddwy flynedd yn ôl roeddwn ni'n cofio am drychineb Senghennydd a'r ymateb cyffredin gan y cyhoedd oedd: "Pam na chlywson ni ddim am hyn yn yr ysgol?"'

Mae stori y tu ôl i bob llyn a chastell a phwll a llwybr yng Nghymru a llinyn o hanesion sy'n dirwyn yn ôl i oes y Celtiaid a chyn hynny. Mae pawb yn hoff o glywed straeon ac mewn baledi, mae cymeriadau'r straeon yn dod yn fyw. 'Dwi'n canolbwyntio ar leoedd a phobl,' meddai Myrddin. 'Er mor amrywiol ydi pob ardal a phob cyfnod, rydan ni'n unedig yn ein hanes fel pobl. Un stori ydi hi a dweud y gwir – stori am arwrfaeth ac am oroesi yn nannedd pob bygythiad. Dwi wedi clywed a darllen rhai o'r hanesion hyn ers pan oeddwn i'n hogyn fy hun ac wrth eu gwisgo nhw mewn dillad newydd fel hyn, dwi'n gobeithio y bydd gwybod mwy am ddoe yn rhoi hyder inni wynebu ein dyfodol.'

Mae'r gyfrol wedi'i haddurno â lluniau trawiadol gan Dorry Spikes.

Gwasg Carreg Gwalch

Pris: £10



Hywel Williams AS

Diolch yn fawr!


Braint yw cael fy ail-ethol fel Aelod Seneddol Arfon. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi fy nghefnogi. Byddaf yn parhau i frwydro ar ran pawb yn Arfon. Cofiwch gysylltu os oes unrhyw fater yn eich poeni.

Cysylltu

Caernarfon | 01286 672 076

Bangor | 01248 372 948

hywel.williams.mp@parliament.uk



Plaid Cymru
Party of Wales



ORIEL CWM CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio Llundain
o bob math
ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau
Gwreiddiol gan artistiaid lleol

Richard S. Humphreys

Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

**PRYNHAWNIAU neu
NOSWEITHIAU 4-10**

DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193

ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triplau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch **(01248) 361044**



D. P. OWENS RHIWLAS

MODURDY'R WYDDFA Snowdon Garage

**M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW**

LLANBERIS

(01286) 870225



ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau Cyngor Cymuned Llanrug

Materion a drafodwyd yng nghyfarfod o'r Cyngor ar yr 21ain o Ebrill.

Ffordd Bryngwyn

Mynegwyd pryder eto am gyflwr y ffordd a gwir obeithir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau i safon uchel. Penderfynwyd i gysylltu â'r swyddog priodol o Gyngor Gwynedd i ofyn am sicrhad y bydd y gwaith am gael ei gwblhau yn fuan ac i safon uchel.

Ffordd drwy Cwm y Glo a Ffordd yr Orsaf, Llanrug

Adroddwyd fod cyflwr y ddwy ffordd yma yn gwaethygu a bod angen tynnu sylw Cyngor Gwynedd atynt. Penderfynwyd i gysylltu â Chyngor Gwynedd i ddwyn cyflwr y ddwy ffordd i'w sylw.

Safle Bws ger Erw Hywel

Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd wedi addo lloches bws ger Erw Hywel ond nad oedd sôn amdano hyd yn hyn. Adroddwyd ymhellach y dylid cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn am loches bws ger Stad Talybont. Penderfynwyd i gysylltu â Chyngor Gwynedd i ddilyn y cais am loches bws ger Erw Hywel i fyny ac i ofyn am loches ger Stad Talybont.

Cais Cynllunio - 'Doedd dim gwrthwynebiad i'r Cais ar gyfer diwygiad di-fateriol ar y cais a ganiatawyd ar gyfer Penlon, Llanrug.

Cae chwarae Pwll Moelyn Llanrug

Cafwyd adroddiad am gyfarfod a gynhaliwyd gyda swyddogion o Gymdeithas Tai Gogledd Cymru. Adroddwyd ymhellach fod y cyfarfod wedi bod yn dda iawn a bod y Gymdeithas Tai yn awyddus i symud ymlaen â'r gwelliannau. Roedd arian wedi'i glustnodi ganddynt i wneud y gwaith. Cadarnhawyd y bydd yr arwydd sydd ar y giât ar hyn o bryd yn cael ei gywiro. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad ac aros hyd y cyfarfod nesaf cyn holi Cymdeithas Tai Gogledd Cymru am ddyddiad cychwyn.

Cae chwarae Nant y Glyn

Adroddwyd nad yw'r biniau sydd ar gae chwarae Nant y Glyn yn cael eu gwagio'n ddigon aml a bod y gadwyn ar clo ar y giât i'r cae wedi diflannu. Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn am gasgliadau ychwanegol i gae Nant y Glyn a pwrcau cadwyn a chlo i'r giât ar frys.

Llwybrau Cyhoeddus

Adroddwyd fod y cyfnod torri llwybrau cyhoeddus arnom. Penderfynwyd cytuno i'r un person sydd wedi bod yn torri'r llwybrau

yn y gorffennol barhau â'r gwaith.

Adroddiadau Pentrefi – Llanrug

- Adroddwyd fod cebl trydan yn rhydd ar bolyn rhwng Gwêl Fynydd a'r Ysgol. Penderfynwyd i gysylltu â Chyngor Gwynedd / Cwmni Trydan am hyn.

• Maes Parcio Llanrug

- Adroddwyd fod y Maes Parcio angen ei beintio, arwyddion newydd arno a hysbysfwrdd yno. Hefyd mynegwyd pryder fod ceir yn cael eu gadael yn y Maes Parcio am gyfnodau helaeth a bod angen edrych i fewn i'r posibilrwydd o roi cyfyngiad aros yno. Penderfynwyd i gysylltu â Chyngor Gwynedd i holi am y broses o roi cyfyngiadau parcio yno a chwilio am brisiau ar gyfer paentio a chael arwyddion newydd i'r Maes Parcio.

• Glanhau Pentrefi – Llanrug

- Adroddwyd fod criw wedi eu sefydlu i fynd o amgylch y pentref i'w lanhau. Adroddwyd ymhellach mai mewn cyfnod gweddol fyr, roeddynt wedi casglu 20 o fagiau sbwriel a 50 o fagiau baw cŵn. Penderfynwyd llongyfarch y criw am ei gwaith arbennig yn tacluso'r pentref ac i archebu mwy o arwyddion 'Cadwch Llanrug yn daclus' i'w dosbarthu o gwmpas y pentref.

• Y Fynwent

- Adroddwyd fod y Clerc wedi ceisio cael mynediad i'r hysbysfwrdd yn y fynwent er diweddarau manylion cyswllt. Ond yn anffodus roedd yr hysbysfwrdd wedi torri. Adroddwyd ymhellach fod angen trwsio'r un yn y fynwent. Penderfynwyd i gysylltu â saer coed i drwsio'r hysbysfwrdd ac i drefnu fod y wal yn cael ei thrwsio.

• Sedd Wag

- Adroddwyd ein bod wedi derbyn dau gais i lenwi'r sedd wag ar y Cyngor Cymuned. Adroddwyd fod hysbysiad o'r sedd wag wedi'i gosod mewn mannau cyhoeddus yn Llanrug, sef hysbysfwrddau siopau Londis, a Premier ac ar ffenestr y Sefydliad Coffa. Mae'r rhybudd wedi'i arddangos ar ffenestr Menter Fachwen yng Nghwm y Glo. Mae'r rhybudd yn rhoi hyd 11 o Fai 2015 i naill ai ddeg etholwr wneud cais am etholiad, neu os na dderbynnir cais am etholiad, yna bydd y Cyngor Cymuned yn cyfethol.

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau Cyngor Cymuned Llanberis

COFNODION EBRILL 2015:

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, ar nos Fawrth yr 21ain o Ebrill 2015 am 7 yr hwyr.

PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Emlyn Baylis, Eurig Druce, Gwilym Evans, Iwan Harding (Cadeirydd), Olwen Gwilym, Derek Jones, Helen Sharp, Trystan Thomas.

Ward Peris: - Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau: Barry Davies, Bethan Holding, Iola Owen, Dafydd Roberts, Gwenda Roberts.

CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fawrth yr 17eg o Fawrth, 2015 fel rhai cywir.

MATERION YN CODI O'R COFNODION:

Cysgodfan Bws Newydd:

Adroddwyd fod y Gysgodfan wedi ei harchebu, ac i fod i gyrraedd yn y deg diwrnod i bythefnos nesaf. Trefnir i gael ei gosod wedyn cyn gynted â phosibl. Bydd yn rhaid defnyddio ymgymerwr cydnabyddedig Cyngor Gwynedd (CG) i wneud hynny. Adroddwyd fod Emlyn Baylis wedi cael gair pellach a'r cymydog oedd yn anhapus a'r lleoliad, ond cafwyd ar ddeall ei fod yn derbyn bellach na ellir lleoli'r gysgodfan ymhellach i'r dwyrain oherwydd y gost o addasu'r palmant, ac adroddwyd ei fod yn fodlon.

Llwybr Pyllau Dŵr:

Adroddwyd i Barry Davies gysylltu ag un o swyddogion CG, ac iddo addo trefnu cyfarfod safle. Roedd hynny bron i fis yn ôl bellach ond ddaeth dim ymateb pellach er i'r Clerc hefyd gysylltu a'r swyddog i'w atgoffa o'r hyn a addawyd yn ystod y dyddiau diwethaf. Addawodd y Clerc gysylltu eto.

Baw Ci:

Dal i ddisgwyl y biniau oddi wrth CG.

Ynys Canol Ffordd ger Gorsaf Rheilffordd yr Wyddfa:

Holwyd a gafwyd gwybod a oedd CG yn bwriadu ail leoli'r ynys a oedd yn gymorth i gerddwyr groesi'n ôl a blaen rhwng yr Orsaf a'r maes parcio gyferbyn. Symudwyd yr ynys adeg y Ras Beics fawr beth amser yn ôl.

MATERION ERAILL:

Strydoedd: Mae parcio yn dal yn broblem ar sawl stryd ym mhen gorllewinol y pentref ac mae cyflwr wyneb rhai o'r ffyrdd yn ddrwg. e.e. Rallt Goch a Lôn Tŷ Du, felly hefyd Lôn yr Eglwys. Holwyd a oedd bwriad i roi llinellau melyn ar Allt Radli? Holwyd hefyd a oedd dyddiad ar gyfer rho'r llinellau gwahardd parcio o Bentre Castell i lawr at y pentref gan fod parcio ar y llain werdd yn ddiweddar wedi golygu cryn ddifrod a llanast.

Cae Chwarae Dôl Elidir:

Adroddwyd fod angen bin sbwriel ychwanegol yn y cae chwarae yma. Soniwyd hefyd ei bod yn ymddangos nad oedd y bin yma na'r un yn Cae Gas yn cael eu gwagio'n gyson. Penderfynwyd anfon gair at CG. Adroddwyd fod sawl cais wedi bod am fainc arall yn nghae Dôl Elidir. Penderfynwyd prynu mainc newydd i'w rhoi yno.

Murlun yn Y Ganolfan:

Adroddwyd fod cais wedi dod am nawdd i baentio murlun yn Y Ganolfan i gofio am y Prifardd T. Rowland Hughes. Cytunwyd yn unfrydol y byddai hynny yn beth da a chafwyd syniad o'r gost debygol.

Arwyddion:

Nodwyd fod nifer o arwyddion anawdurdodedig wedi ymddangos eto mewn perthynas â nifer o fusnesau pentrefol. Yn eu plith Siop Beics, Rheilffordd yr Wyddfa, Coffee Pot a Siop Spar. Penderfynwyd rhoi gwybod i adran gynllunio CG. Hefyd roedd nifer cynyddol o arwyddion ar balmentydd a bin mawr brown ar y palmant y tu allan i un siop.

GOHEBIAETH:

Cais am Gymorth:

Derbyniwyd llythyr oddi wrth un o drigolion Llanberis, sef Stephen Williams, yn nodi iddo gael ei dderbyn yn aelod o Theatr Ieuencid yr Urdd a oedd i deithio i Batagonia yr haf yma i wneud perfformiadau dramatig ar gyfer canmlwyddiant a hanner sefydlu'r Wladfa Gymreig yn Ariannin. Cytunwyd i gynnig £300 tuag at ei dreuliau, gan ei longyfarch ar gael ei ddewis a dymuno'n dda iddo ac i'r cynhyrchiad.

CG - Adran Rheoleiddio:

Llythyr yn egluro fod y Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd y Cyngor yn newid ei ffordd o weithio er mwyn gwella safon y ceisiadau cynllunio ac ansawdd datblygiadau, yn ogystal â chwto'i'r amser y mae'n gymryd i ddelio â cheisiadau. Nid yn annisgwyl bydd cost ychwanegol am y gwasanaeth newydd, ond gwnaed sylw fod CG yn cydnabod y gallai safon cynllunio a

datblygu fod wedi bod yn llai na pherffaith yn y gorffennol wrth fynnu y bydd y gwasanaeth yn gwella o dan y drefn newydd.,

Cyngor Cymuned Waunfawr:

Llythyr mewn perthynas â Snowdonia Pumped Hydro yn nodi fod Cyngor Waunfawr yn awyddus iawn i sicrhau ffynhonnell sylweddol o arian fel iawndal, oddi wrth y cwmni sy'n gobeithio datblygu'r cynllun trydan-d'r ar fynydd Cefn Du rhwng y ddau blwyf, am drafferth a rhwystr a ddaw yn sgil y datblygiad. Mae'r llythyr yn holi am gydweithio rhwng y ddau Gyngor i sicrhau cymaint o arian â phosibl gan nodi rhestr hir o anghenion sydd yn y Waunfawr am ddatblygiadau newydd fel cae pêl-droed, lle chware diogel i'r plant lleiaf, meddygfa, heb sôn fod y Ganolfan a'r ysgol feithrin angen cymorth, a'r awydd i gael siop.

Cytunwyd i drafod gyda Chyngor Waunfawr pan fydd, ac os bydd, hynny yn addas.

Morbegno:

Cais am arian tuag at groesawu ymwelwyr o Morbegno, gefeilldref Llanberis. Penderfynwyd gadael y cais ar y bwrdd i'w drafod gyda gweddill geisiadau am gymorth pan ddêl yr amser.

CG - Gwasanaethau Cyfreithiol:

Cadarnhau 4 gorchymyn, yn ddiwrthwynebiad, sydd yn gwyro llwybrau cyhoeddus yng Nghymuned Llanberis. Llwybrau rhif 22 (dwyrain), 22 (gorllewin), 25 a 26.

Archwiliad Mewnol:

Nodyn oddi wrth yr Archwiliwr Mewnol yn nodi mai'r 21ain o Fai ydi diwrnod yr archwiliad.

CADARNHAU CYLLIDEB:

Yn absenoldeb nifer o aelodau penderfynwyd gohirio cadarnhau'r Gyllideb tan y mis nesa.

CYNLLUNIO:

1. Cyngor Gwynedd:

C15/0345/15/LL - gwaith peirianyddol i greu llythra (lleoliad diwygiedig i'r hyn a ganiatwyd yn flaenorol o dan gyfeirnod C15/0022/15/LL - rhan o Llyn Padarn - ger Stad Ddiwydiannol y Glyn, Llanberis

Dim gwrthwynebiad.

C15/0119/15/HY - gosod arwyddion newydd gan gynnwys arwyddion wedi eu goleuo - Siop Spar, Stryd Fawr, Llanberis (Cynllunio diwygiedig 15/04/15)

Yr un gwrthwynebiadau ag a restrwyd pan ddaeth y cais gwreiddiol gerbron. Roedd rhai manylion wedi newid, ond eto roedd y Cyngor o'r farn fod yr arwyddion a'r brandio yn dal yn llawer rhy ymwithiol, yn rhy 'welwch chi fi', ac unwaith eto mynegwyd gwrthwynebiad i'r arwydd anferth wedi ei oleuo. Hefyd mae trigolion lleol wedi mynegi gwrthwynebiad sylweddol i'r arwydd yma, o ran ei faint a'r ffaith ei fod wedi ei oleuo. Yn ôl un o'r aelodau mae 16 o arwyddion o ryw fath o gwmpas Siop Spar, ac mae hynny yn cynnwys baner fawr. Penderfynwyd gwrthwynebu'r holl gynlluniau.

APCE: Caniatáu:

NP3/15/31C - Ymestyn y tŷ i'r adeilad allanol presennol - Fron Rhedyn, Nantperis - dim gwrthwynebiad.

LLWYBRAU A'R FYNWENT

Y Fynwent:

1. Adroddwyd fod un o feini'r Fynwent wedi syrthio a gofynnodd y Clerc am wybodaeth am y teulu er mwyn rhoi gwybod iddynt. Soniodd hefyd fod rhywun wedi tacluso bedd gan adael sawl bwcedaid o gerrig ar ôl ger wal y ffordd.

2. Adroddwyd fod y Rheolau newydd wedi eu teipio, ond fod angen eu cyfieithu.

3. Dangoswyd dyluniadau ar gyfer nifer o gerrig coffa, roeddynt i gyd yn dderbyniol.

ADRODDIADAU O GYFARFODYDD ALLANOL:

Ysgol Dolbadarn: Cyngerdd yr Urdd ar y 14eg o Fai yn Y Ganolfan gan Adran yr Urdd Ysgol Dolbadarn yn ôl Trystan Thomas.

Partneriaeth Llanberis: Emlyn Baylis yn amau gwerth y Bartneriaeth erbyn hyn. Nid oedd fawr ddim yn digwydd ac roedd y Fforwm hefyd yn amlach na pheidio'n trafod yr un materion. Roedd y cwmni sy'n ceisio hawl cynllunio i'r cynllun trydan-dŵr yn Glyn Rhonwy wedi cael gwahoddiad i ddod i'r cyfarfod, ond heb ymateb.

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau Cyngor Llanddeiniolen

Cofnodion Cyfarfod Sed Fai 2015

Yn bresennol:- Richard Ll. Jones, Miss Phyllis Ellis, Rhian Evans, Geraint Hughes, Phyllip Jones, Sion Jones, Carolyn Roberts, Idris Thomas, Elfed Wyn Williams a R. Hefin Williams.

Gweddi. Offrymwyd y weddi agoriadol gan Y Parch Idris Thomas.

Ymddiheuriadau: Geraint Elis, Aled Green, Jane Pierce, Rachel Williams, Gwilym Williams

Swyddogion y flwyddyn:

Penodwyd Phyllis Ellis yn Gadeirydd, gyda Elfed Wyn Williams yn is-gadeirydd

Gyda Phyllis Ellis yn y gadair, Diolchwyd i Richard Ll. Jones am ei waith yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Datgan Buddiant

Cafwyd datgan diddordeb gan Geraint Hughes ac Idris Thomas yn nhrafodaeth rhoddion Eisteddfod yr Urdd a chystadlaethau Bandiau.

Cyfrifon

Trafodwyd cyfrifon 2014/15 y Cyngor. Penderfynwyd derbyn y Fantolen Ariannol a'i chyflwyno i'r archwilwyr. Ychwanegwyd buasai yn ymarfer da i ymddangos mewn lle priodol cyhoeddus ym mhob pentref.

Cofnodion cyfarfod y 7fed o Ebrill 2015

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Materion o'r Cofnodion

Taflen Gwestiynau Age Cymru Gwynedd a Môn

Dywedodd Richard Ll Jones ei fod wedi rhannu y daflen gwestiynu a dderbyniwyd yng Nghlwb yr Henoed ym Methel, a bod y rhan fwyaf yn gefnogol iawn i'r cynllun.

Apêl Coed Rhydau

Bu i Hefin Williams, Phyllis Ellis a Jane Pierce fynychu'r cyfarfod yma, ond ni fyddwn yn gwybod y canlyniad tan rhywbryd yng nghanol mis Mehefin.

Priffyrdd

Derbyniwyd llythyr o'r adran briffyrdd yn ymateb i gais safon ffordd Racca i Glwt y Bont, Pont Injan Brynrefail a phroblem y pant yn y ffordd ger Erw Fair lle cadarnhawyd y byddai rhaglen patchio yn cael ei chyflawni yn yr wythnosau nesaf. Penderfynwyd nad ydi patchio y safle yma yn mynd i fod yn ddigonol a chyfeiriwyd bod y man yn hynod o beryglus i rywun yn teithio gyda beic, gan fod y pant yn gwaethygu yn ddyddiol ac yn cael ei fwyta gan ddr. Gofynnwyd i'r clerwr i gysylltu â Pheiriannydd Ardal i ddatgan ein pryderon a gofyn a allent ail edrych ar y ffordd.

Materion parcio Rhiwlas

Nid oes yr un modd i allu ariannu cynllun i ddatblygu lle parcio.

Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau na fydd yn bosib i'r ymgyngorwyr fynychu cyfarfod y Cyngor Cymuned, ond y buasai yn disgwyl gweld presenoldeb o'r cyngor cymunedol yn y sesiwn taro heibio i'w gynnal yn y Llyfrgell yn Neiniolen ar Fai 19eg. Trafodwyd mai wedi ei gwahodd er mwyn ceisio helpu ar unrhyw gwestiynau oedd y pwrpas, ac nid i rwystro dim ar yr ymchwiliad. Penderfynwyd llythyr yn ôl yn esbonio hyn, ac yn rhagweld y bydd cynrychiolaeth yn y llyfrgell i'r sesiwn taro heibio. Rhaid cofio mai £4015 yn unig ydi'r gost o redeg y Llyfrgell yn Neiniolen.

Ffordd Mynedfa Maes Gwylfa

Derbyniwyd llythyr gan CCG yn gobeithio cychwyn ar y gwaith o gywiro'r ardal yn fuan.

Ymatebwyr cyntaf

Yn dilyn ymholiadau pellach, penderfynwyd ail yrru y rhodd gyda siec yn ysgrifenedig i Ambiwylans Cymru.

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Cafwyd 4 cais am gyfraniad ariannol tuag at gostau teithio i bartion a fu yn llwyddiannus yn yr eisteddfod rhanbarth.

Nodwyd mai £100 a gyfrannwyd llynedd i bob parti. Eleni mae gwaith teithio pellach i Gaerffili, oherwydd hyn penderfynwyd cyfrannu £150 i

Cân Actol Adran Deiniolen

Parti Canu Ysgol Gymuned Penisarwaun

Grŵp Llefaru Adran Bethel

Grŵp Dawnsio Angylion Kelly

Gan ddymuno yn dda iddynt oll yng Nghaerffili.

Yn ogystal, yn dilyn cais gan Fand Ieuenctid Deiniolen am nawdd ariannol tuag at gostau bws i'r Drenewydd i gystadlueaeth lle ddaeth y band ieuenctid yn ail yllnedd, penderfynwyd ar y sail mai cystadlueaeth ieuenctid yw hon fel yr Urdd i gyfrannu y swm o £150, gan ddymuno yn dda iddynt hwythau.

Cais Cae Chwarae Bethel

Derbyniwyd cais gyda phwtyn o fantolen ariannol yn gofyn am nawdd tuag at 2 fainc bicnic yn y pentref. Mae'r cae chwarae wedi derbyn grant o 5 mil i ddatblygu y cae chwarae. Dywedwyd mai unwaith y flwyddyn, ar wahân i geisiadau yr Urdd, mae'r cyngor yn derbyn ceisiadau am nawdd ariannol. Penderfynwyd gwrthod y cais ar hyn o bryd gan nad oedd y fantolen, yn bennaf, heb ei harchwilio, ac am fod y cyngor yn credu bod rhaid cael mwy nac 1 amcan-bris. Awgrymwyd iddynt gael amcan-bris gan gwmni lleol megis Menter Fachwen.

Tendro Torri Llwybrau

Cadarnhawyd bod hysbyseb wedi ei roi yn Eco'r Wyddfa a Caernarfon Herald, ac mae ychydig o ddiddordeb wedi dod. Bydd y pecynnau yn cael eu gyrru allan yr wythnos yma, a byddwn yn eu trafod yn y cyfarfod ym mis Mehefin.

Gohebiaeth a Materion Eraill

Mae yn ymddangos fod ein yswiriant yn dod i ben yn weddol fuan. Penderfynu nad oedd dim trafferth ac yn ddigon hapus gyda'r cwmni sydd gennym ac, yn dilyn dau bris, mae'n ymddangos bod y cwmni presennol yn cynnig y pris gorau. Penderfynu derbyn y pris ac yswirio gyda'r cwmni presennol.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Blue Peris, Dinorwig – Cais ar gyfer gwneud gwaith i goed wedi eu gwarchod

Tir Gyferbyn â Tŷ Elin, Penisarwaun – Cynlluniau Diwygiedig i'r cais gwreiddiol

Bod Ivy, Tre'r Gof Bethel – Dymchwel ystafell haul ar gefn yr eiddo ynghyd â chodi estyniad yn ei le

Creigle, Dinorwig – Creu mynedfa gerbydol newydd ac ail leoli llecyn parcio a tanc nwy.

O Gwmpas y bwrdd

Hefin Williams – Angen tar macio Stryd Uchaf Rhiwlas.

Geraint Hughes – Pam mae yna waith yn cael ei wneud gan y Grid Cenedlaethol ar lon Caer mynydd ETO?

Phyllis Ellis – Mae yna broblem Baw Cŵn ym Mhenisarwaun.

Phyllip Jones- Baw Cŵn yn cael ei roi mewn bag ac yna ei hongian ar ffens Marchlyn.

Mae angen cysylltu â warden i glirio beth yn union sydd angen i bobl wneud, ac yna rhoi erthygl neu gyfarwyddiadau ar sut i fynd ati i ddelio efo'r broblem yn y papurau bro.

Aled Green – Daeth neges yn dweud bod gordyfiant ar goed drosodd i'r lôn o Siop Gron ar hyd Lon Perthi ym Mhenisarwaun.

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5



Ar ben arall i'r lein

Erbyn y daw yr Eco i law bydd 27ed Mai wedi hen fynd heibio. Dyma'r diwrnod sydd wedi'i drefnu i roi tipyn o hwb i ymwybyddiaeth pysgota a saethu colomennod clai ar dir Gwesty'r Seiont Manor, Llanrug. Diolch i Gyngor Gwynedd (Cist Gwynedd) am gyfrannu i wneud y fenter yn bosib.

Yn ogystal â chyfle i drïo 'sgota bydd BASC (Cymdeithas Brydeinig Saethu a Chadwraeth) ar gael i gyflwyno a rhoi tipyn o hyfforddiant ar saethu colomennod clai. Bydd y gweithgareddau ar gael am ddim, a dyna beth anghyffredin heddiw! Yn dilyn yr ymateb i'r posteri ac ati sydd wedi eu dosbarthu gan ein aelodau mae cryn ddiddordeb i'w weld yn y fro. Oes, mae eisiau codi tipyn o ymwybyddiaeth yn lleol ar be sydd ar gael drwy gymdeithasau a sefydliadau lleol, mae'n rhaid eu cefnogi neu mi fydd y rhwydwaith lleol yn cael ei erydu gan bwysau o du allan i'r ardal.

Dydw i ddim am fynd ar ben y bocs sebon a dechrau pregethu eto, ond mae'n bwysig fod pawb yn cysidro cefnogi sefydliadau, yn enwedig ar adegau pan mae amgylchiadau ar adegau yn effeithio ar eu gallu i weithredu. Mae'r broblem yma wedi ei wynebu gan y Gymdeithas yn dilyn llygredd Llyn Padarn yn 2009. Diolch i'r drefn mae'r rhai mae'r gymdeithas yn prydlesu hawliau pysgota ganddynt wedi bod yn eithriadol o gydymdeimladol tuag at sefyllfa'r clwb ac yn deall yn iawn fod eisiau cadw mynediad i bysgota'r fro i drigolion lleol yn ogystal ag ymwelwyr i'r ardal. Mae ein diolchiadau'n fawr i'r rhai sydd yn dal i'n cefnogi yma yn Nyffrynnoedd Peris/Seiont, Gwyrfaï a Nantlle.

Pwysigrwydd hyn i gyd yw, wrth gwrs, fod y dyfroedd yn agored i bawb, ond mae arwyddocâd o beth all ddigwydd i'w weld ar yr Afon Llyfni ble mae un o glybiau pysgota mawr o Loegr, sef y Prince Albert, wedi cymryd drosodd y rhan o'r afon oedd gynt yn cael ei rhentu gan y Gymdeithas. Dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd yn y fro - arwydd yn dweud 'Dim tocynnau dyddiol'. Os am ymuno i gael 'sgota dri cae ar y Llyfni mae'n rhaid mynd am gyfweiliad dros Glawdd Offa i Sir Gaer. Pris y flwyddyn gyntaf, os bydd yn bosib ymaelodi, yw £220. Tipyn mwy na'r Gymdeithas leol. Mae be ddywedodd Cynan ym maled y Noddfa yn fyw ac yn iach ym Mhontllyfni

Ai gwell gennynt aur

Brenin Lloegr a'i wên

Na chwlwm cyfamod dy genedl hen?

Er hyn i gyd mae pethau i'w gweld yn dechrau dod i derfyn gyda materion Padarn drwy fod 16 -17 Mehefin wedi eu penodi fel dyddiau gwrandawriad llys ar ein cais am Adolygid Barnwrol ar benderfyniadau Cyfoeth Naturiol Cymru. 'Rwy'n deall nad yw'r corff yma ddim yn rhyw hapus iawn ar be sy'n mynd ymlaen ac yn ceisio gohirio'r achos am rhyw ychydig fisoedd. Mae'r peth yma yn rhedeg er 2009 ac os nad ydynt gyda'r manylion i gyd erbyn hyn mae eisiau dod â brwsh mawr a dechrau ysgubo ychydig drwy'r swyddfeydd 'na tua Bangor.

'Rwy'n sylwi fod cryn hysbys wedi ei roi i'r clawdd graffiti sydd wedi ei greu yn Llanberis. Un da ydi o ynde? Yndi, mae'r arlunio yn ardderchog ac yn bleser i'r llygaid. Ond da chwi peidiwch â diystyru'r llastr amgylcheddol sy'n dal i effeithio dyfroedd Padarn.



Gyda phopeth sy'n mynd ymlaen mae, ar adegau, yn anodd cael cyfle i roi rhyw ychydig ddyddiau ar yr afon, ond mewn difri mae'r tywydd efallai hefyd wedi bod yn rhwystr, i mi o leiaf. Heddiw, mae rhagolygon y tywydd yn addo cenllysg, felly rhaid oedd symud y blodau'n ôl i'r tŷ gwydr. Pan fydda i yn cael negeseuon fod rhywle wedi sgota'n dda yna byddaf yn teimlo fel taflu'r holl bapurau sydd yn fy amgylchynu i'r bin, yn enwedig pan gefais wybodaeth fod Llyn Nantlle, ar yr ychydig ddyddiau ffafriol, wedi bod yn pysgota'n eithriadol. Cofiwch rhaid mynd ar y cwch, ond wedi'r cwbl dyna ran o'r pleser.

Yndi, mae Nantlle a Cwellyn yn rhoi rhyw wefr imi, fel yr oedd Padarn rai blynyddoedd yn ôl pan oedd y torgoch yn niferus. Ond eleni, 'rwyf am wneud ymdrech deg i geisio bachu un neu ddau o Cwellyn i'w cymharu fel pryd. Anodd curo rhai Padarn buaswn yn meddwl, ond mi wna i adael i chwi wybod y feirniadaeth. Tra ar y torgoch mae sibrydion fod rhai o Lanberis, a rhain ddim yn aelodau chwaith, yn i thrio hi gyda'r enwair ar ochr rheilffordd y chwarel. Mae torgoch yn cael eu dal yno fel rwy'n deall. Does eisiau gras â rhai 'dwch? O gysidro fod y cyflenwad o dorgoch yn cael eu stocio'n flynyddol i geisio cynyddu y nifer at lefel fel ei bod yn hunan gynhaliol unwaith eto. Os yw ymddygiad fel hyn yn mynd ymlaen yna y tebygrwydd yw y bydd is-ddeddf gael ei gosod gan Gyfoeth Naturiol Cymru i atal pysgota. Os daw hyn i rym yna ni fydd gobaith ei diddymu. Does eisiau gras hefo rhai 'dwch.

Ar Lyn y Dywarchen, yn ffodus, does dim perygl i'r stoc gan ein bod yn rhoi cyflenwad o frithyll yr enfys yno yn fisol. Mae rhain yn bysgod gwerth eu gweld, mewn cyflwr ardderchog a hyn gan eu bod wedi eu diffwrthloni. Dyma reol newydd oddi wrth ein meistri yng Nghaerdydd 'na, rhag i'r brithyll groes-fagu â'r brithyll brown. Chlywais i na neb arall am beth fel hyn yn digwydd - ond does neb yn cymryd dim sylw o'n sylwadau ni. Pechod mawr na fuasent mor llym yn rheoli gweithgareddau carthffosiaeth Dŵr Cymru.

Huw Price Hughes.

Chwaraeon

NI DDAETH Y TLYSAU I'R TIMAU HŶN...



Roedd gennyf obeithion o lenwi'r golofn gyda lluniau yn unig y mis hwn yn llawn o dimau pêl-droed y fro gyda'u tlysau. Ond boddi yn ymyl y lan fu hi mae gen i ofn. Yn yr oedran hŷn, un tlws a ddaeth gyda Ail Dim Llanberis yn cipio Tarian Cynghrair Gwynedd. Siomedig fu eu tymor cynghreiriol, ond unwaith eto daeth traddodiad 'cwpan' y Darans i'r wyneb.

Bydd Waunfawr yn bles â'u tymor ond byddant yn siomedig gyda'r canlyniad yn ffeinal Cwpan Ganolradd yr Arfordir. Daethant yn erbyn tîm cryf Prestatyn Sports, tîm allai gipio pum tlws y tymor yma.

Yr un fu hanes tîm merched Bethel a gollodd i Gaernarfon yn rownd derfynol Cwpan y Gynghrair. Eto tipyn o gamp i dim pentref.

Roedd Llanrug wedi cipio Cwpan Cookson, ac yn wynebu Treffynnon

ar Nantporth yn ffeinal Cwpan Mawddach. Denwyd torf dda gan greu awrygylch gystadleuol. Gêm o safon ble cafodd hogia Eithin Duon sawl cyfle. Doedd fawr ddim rhwng y ddau dim, a hogia Treffynnon a orfu o 3-2 wedi amser ychwanegol. Trueni na allai Aled Owen ddiweddu ei gyfnod fel rheolwr Llanrug gyda buddugoliaeth. Braff oedd gweld y ddau dim yn creu gosgordd ar ddechrau'r gêm i groesawu Aled i'r maes. Mae'n dweud cyfrolau nid yn unig am ei ddawn fel chwaraewr a rheolwr ond hefyd y parch iddo fel person. Chwaraeodd ran flaenllaw yn gosod y sylfaeni cadarn sydd i glwb Llanrug ar hyn o bryd. A bydd llwyddiant y 'pnaun braff yn Rhyf' yn aros yn y cof.

Fel Terry Saynor i fyny'r dyffryn gwnaeth ddiwrnod da o waith.

OND Y 'DWBL' I IEUENCTID LLANBERIS



Roedd tymor 2014-15 yn hynod lwyddiannus i dim pêl droed dan 14 oed Llanberis. Coronwyd y tymor nos Fercher, Mai 13 pan gyflwynwyd tlws Cynghrair Gwyrffai i'r hogiau wedi'r gêm olaf, yn erbyn Cae Glyn, ar Gae Ffordd Padarn. Roedd y bencampwriaeth wedi ei sicrhau cyn hynny gan fod y tîm wedi ennill pob gêm hyd hynny; ac nid oedd y gêm olaf yn wahanol chwaith, gyda Llanberis yn fuddugol o 9 gôl i 2. Yr un fu'r stori gydol y tymor: llond rhwyd o goliau ym mhob gêm bron. Eithriad prin oedd gemau clos fel y fuddugoliaeth yng Nghae Glyn (3-1).

Ar ben hynny hefyd, enillwyd Cwpan y Gynghrair trwy drechu Talysarn (3-0) yn y rownd derfynol ym Mhenygroes nos Lun, Mai 11. Roedd hynny'n golygu bod y tîm yn gwbl ddiuro yn lleol, wedi ennill pob gêm o ddechrau'r tymor i'w ddiweddd.

Bu ond y dim i'r hogiau ennill trydydd tlws gan iddynt gyrraedd rownd derfynol Cwpan dan 14 oed Gogledd Cymru. Ar wahân i'r fuddugoliaeth oddi cartref yn Ninbych yn un o'r rowndiau cynnar (4-2, wedi amser ychwanegol), enillwyd pob gêm yn y gystadleuaeth hon yn gymharol rwydd hefyd, gan ddangos bod Llanberis gystal os nad gwell nag unrhyw dîm o'i oed yn y Gogledd. Yn y rownd derfynol ym Methesda, ddydd Sadwrn, Ebrill 25 daeth y tîm o fewn trwch blewyn i guro Conwy. Hanner amser, roedd Llanberis ar y blaen o 3 gôl i 0, cyn i bopeth newid yn yr ail hanner a Chonwy'n ennill o 5 gôl i 3. Dyna beth oedd siom enfawr i bawb, yn cynnwys y dorff gref o gefnogwyr. Roedd y siom yn

fwy o gofio i'r tîm gollu yn rownd derfynol Cwpan Gogledd Cymru dan 12 oed ddwy flynedd yn ôl. Mae'r hogiau'n ddiolchgar i bawb a ddaeth i'w cefnogi, ac yn edrych ymlaen at roi trydydd cynnig ar ennill un o gwpanau'r Gogledd, sef y Cwpan dan 16 oed ymhen dwy flynedd.

Dymuna'r hogiau ddiolch i Rodney Collins ac Adrian Roberts, eu rheolwyr, sydd wedi gweithio mor galed i'w hyfforddi ac i drefnu'r gemau ar eu cyfer ers naw mlynedd. Diolch hefyd i Gerallt Morris, y dyfarnwr a'r llumanwr, am ei holl waith.

Pob hwyl i'r tîm y tymor nesaf. Bydd yr hogiau'n wynebu timau flwyddyn yn hŷn na nhw eu hunain yn yr oedran dan 16 oed. Bydd hynny'n anodd, ond bydd yn baratoad da ar gyfer y tymor dilynol a'r ymdrech i efelychu, a hyd yn oed wella ar gamp ryfeddol y tymor hwn. Ymhen dwy flynedd, gobeithio, mi ddaw'r 'trebl'. Ond am eleni gallwn longyfarch yr hogiau ar ennill y 'dwbl'. Ac o gofio bod y tîm hwn wedi cyflawni'r un gamp ddwy flynedd yn ôl (dan 12 oed), mae'n amlwg ei fod yn un o'r timau ieuencid gorau a welwyd ym mro'r Eco erioed. Mae chwech o'r chwaraewyr wedi bod gyda Rodney ac Adrian ers naw tymor. Mae'r hogiau bach pump oed hynny, a'r lleill sydd wedi ymuno â nhw ers hynny, wedi datblygu'n beldroedwyr dawnus ac yn dîm ardderchog. Mae safon uchel eu cyd-chwarae yn glod mawr iddyn nhw ac i'w dau reolwr. Llongyfarchiadau am dymor rhyfeddol arall.

Ras Gwynnos yr Wyddfa.

Eleni mae Ras yr Wyddfa yn dathlu ei phenblwydd yn ddeugain oed, a'r bwriad yw dathlu'r achysur gyda nifer o weithgareddau sy'n cychwyn ddiwedd Mehefin ac yn ymestyn dros gyfnod y ras ei hun ymlaen i Fedi.

Ar 26ain o Fehefin bydd ras yn cychwyn o Gae'r Ddol yn Llanberis ac yn anelu am y copa. Yno bydd y llinell derfyn, ac oherwydd mai gyda'r nos y cynhelir y ras, bydd y caffi ar y copa ar agor hyd ddeg o'r gloch y nos – y tro cyntaf erioed iddo fod ar agor mor hwyr yn y nos.

Rhwng mis Mehefin a Medi bydd arddangosfa yn adrodd hanes y ras, ac yn cynnwys nifer helaeth o luniau.

Yn ystod yr wythnos yn arwain at Ras yr Wyddfa bydd nifer o weithgareddau amrywiol yn cael eu cynnal yn y pentref gan gynnwys cystadleuthau dartiau a pwl, Ras 5 cilomedr a rasys y plant. Cynhelir cyngerdd yn yr eglwys gyda Meinir Gwilym, ac ar noson y ras ei hun bydd y Moniars yn diddanu.

Gwybodaeth fanylch i ddilyn yn rhifyn Gorffennaf o'r "Eco".

RHEDEG MYNYDD

Mae nifer y rasys yn cynyddu, ac anodd cadw i fyny â'r canlyniadau ym mhob ras. Dyma rai o'r llwyddiannau lleol yn ystod y mis diwethaf. Yn Ras Nos Fawrth Mynydd Mawr, daeth Gareth Hughes, Penisarwaun yn ail, Bronwen Jenkinson, (Waunfawr) yn ferch gyntaf dan 18 oed – a thorri'r record, a daeth Kierran Forrest yn gyntaf dan 16 oed, a gorffen yn wythfed yn erbyn yr holl oedolion.

Roedd y ddau hefyd yn aelodau o dimau Gogledd Cymru ym Mhencampwriaeth Rhyng-sirol Prydain ym Metws y Coed yn ystod y mis, gyda Bronwen yn aelod o'r tim merched dan 18 oed a enillodd y fedal aur, a Kierran yn aelod o'r tim bechgyn dan 16 oed a enillodd y fedal arian.

Yn Ras 10 cilomedr Rhostryfan (sy'n cynnwys cymaint o ddringo ac ambell ras fynydd!) daeth pump gwobr i'r fro. Rob Samuel (Llanberis) oedd yn fuddugol, gan dorri record y cwrs, a hynny wedi brwydro'n ôl yn dilyn anaf difrifol. Arwel Lewis (Bethel) oedd enillydd y dosbarth dros 50 oed, a Phil Jones (Waunfawr) y dosbarth dros 60 oed. Ali Thomas (Llanberis) ac Emily Wood (Llanberis) oedd yn gyntaf ac ail yn y dosbarth i ferched dros 40 oed.

Yn Ras Moel y Gest, torrodd Maggie Oliver (Dinorwig) y record i ferched dros 60 oed. Yn anffodus yn y ras hon aeth nifer o redwyr ar goll! – rhai ohonynt yn lleol, ond wnai ddim eu henwi, ac yr oedd Draenog ar ei wyliau y noson honno. Meddyliwch mewn difrif calon, mynd ar goll ar Foel y Gest. Diolch nad oeddent yn cystadlu ar fynydd go iawn!

Effeithiodd y tywydd ar Ras Pen Dinas, Nant Peris, gyda dim ond 33 o redwyr yn herio'r elfennau, a'r mwyafrif ohonynt yn dod i lawr yr allt serth (clogwyn yn ôl rhai) ar eu tinau. Daeth Paul Jenkinson (Waunfawr) yn ail, a'r dyn cyntaf dros 40 oed.

Yn Ras Abergwyngregyn torrwyd record unwaith yn rhagor. Alun Vaughan o Lanberis gynt oedd yn dal y record, ond fe'i torrwyd gan Matthew Roberts o Lanberis tra'n ennill. Yn yr un ras torrodd Bronwen Jenkinson (Waunfawr) y record i ferched dan 18 oed. Mae'n ymddangos mai cyfres o dorri recordiau ym mhob categori oedran fydd Cyfres Nosweithiau Mawrth eleni!

Erbyn i'r rhifyn hwn o'r "Eco" fynd i'r wasg bydd Ras Moel Eilio wedi ei chynnal a Ras y Gogarth yng nghyfres Nos Fawrth. Ac o fewn dim, bydd y rhan fwyaf o redwyr mynydd yn dechrau hel meddyliu am Ras yr Wyddfa.

Beicio'r Gogarth.

Nid ras oedd y Conwy Fondo a gynhaliwyd ddechrau fis Mai, ond taith feicio'n cael ei hamseru, gyda dewis o dri chwrs yn ardal Dyffryn Conwy. Roedd rhan o bob cwrs yn dilyn y ffordd o amgylch Y Gogarth, a'r ffordd wedi ei chau i bawb ond beicwyr. Dyma'r unig ran o'r cwrs ble roedd hawl i'r beicwyr rasio, a phob un yn cael ei amseru dros y cwrs. A merch leol, Fiona Nesfield o'r Waunfawr oedd y ferch gyflymaf dros y cwrs, gan orffen dros funud yn gyflymach na phob merch arall.

Cap i Cai.



Tra'n llongyfarch Ifan Emlyn o Lanrug ar gael ei ddewis i chwarae peldroed dros Golegau Cymru yn yr Eidal, doedd yr "Eco" ddim yn ymwybodol fod un arall o fechgyn y fro yn y garfan dan 18 oed honno hefyd. Ymddiheuriadau a llongyfarchiadau calonog i Cai Owen o Ddeiniolen, fu hefyd yn chwarae mewn tair gêm dros Gymru yn erbyn yr Eidal, Albania a Malta. Mewn sgwrs gyda Cai, dywedodd iddo "gael trip bythgofiadwy, a'r pleser o chwarae dros Gymru mewn dinas fendigedig fel Rhufain." Mae Cai hefyd yn aelod o dim Dinas Bangor.

Ddiwedd fis Mai bydd Cai yn cael ei gyflwyno â'i gap mewn cyfarfod arbennig yng Nghasnewydd.

ECO'r
Wyddfa

Cefnogwch ein
hysbysebwyr

Ffenestri CADNANT Windows
iorwerthwilliams@fsmail.net
DRYSAU □ FFENESTRI
A CONSERVATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM
13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

Tîm Dan 14 Clwb Rygbi Caernarfon



Eleni bu tîm Dan 14 Clwb Rygbi Caernarfon ar daith i Wyl rygbi Medi'Ovales yn Provins, tref sydd tua 65 milltir i'r de-ddwyrain o Baris, Ffrainc.

Bu'r hogiau'n yn hel pres am ddwy flynedd ond, ar Mai 1af, fe gychwynnodd 24 o hogiau a 15 o oedolion ar daith. Ar ôl cael eu casglu ym maes awyr Charles de Galle fe deithiwyd i Provins gyda chwmni bws lleol. Yn dilyn croeso gwresog gan lywydd y clwb, i ffwrdd â'r hogia i aros gyda theuluoedd lleol - dipyn o antur. Pob un yn nerfus, ddim yn si?r faint o Saesneg fyddai'n eu disgwyl a beth fydda yna i fwyta!

Bore Sadwrn roedd yna orymdaith fawr, pob un o'r 450 o chwaraewyr o'r 18 tîm, band pres swnllyd, rhieni, hyfforddwyr a chefnogwyr i gyd yn gorymdeithio drwy'r drefn hanesyddol.

Yna ar ôl cinio 4 cwrs yn yr ysgol leol, fe ddechreuodd y chwarae.

Roedd y gêm gyntaf yn erbyn tîm yr Old Alleyians o Lundain gan eu curo 7-0. Wedyn curo tîm o Liege yng ngwlad Belg ond colli yn erbyn y tîm lleol Provins. Nos Sadwrn roedd yna gystadleuaeth ble roedd pob tîm yn

gorfod cyflwyno eitem o adloniant. Wrth gwrs canu fu'r Cofis, wedi eu hyfforddi gan Mrs Ann Hopcyn, Ysgrifennydd y Clwb. Fe ganodd y hogia fedli o ganeuon rygbi gan orffen gyda Hen Wlad fy Nhadau. Ac roedd yna fwy o ganu a gweiddi pan gyhoeddwyd mai'r Cymry oedd wedi ennill y gystadleuaeth.

Bore Sul, colli yn erbyn Fontainbleau o Ffrainc, curo Northampton, curo Pays de Meaux o Ffrainc ond colli yn erbyn Boitsfort o wlad Belg. Chwarae 7 ennill 4, colli 3. Ond wedyn cyhoeddwyd mai Clwb Rygbi Caernarfon oedd wedi ennill y wobwr chwarae teg, am eu hymddygiad ar, ac oddi ar y cae.

Fe bleidleisiodd y chwaraewyr Sam Williams o Fethel yn chwaraewr y daith - wneith neb anghofio'r ffordd y bu Sam yn taclo yn erbyn Old Alleyians a Liege yn arbennig. A doedd dim syndod ychwaith mai Sam gafodd ei bleidleisio'n "Gymeriad y Daith" - o'r mwstas ffals ar y bws i Fanceinion i'r holl jôcs drwy'r daith gyfan.

Yna fore Llun cychwyn am adra, yn flinedig ond efo llond trol o brofiadau a straeon i rannu.



Sam Williams Chwaraewr a Cymeriad y daith

DOD DAN BWYSAU

Erbyn i chwi ddarllen y golofn hon bydd tymor pêl-droed y gaeaf drosodd. Wedyn bydd tymor pêl-droed yr haf, sawl twrnament ieuentid, a hyfforddi ar gyfer tymor nesaf yn dechrau. Eisioes mae rhai yn honni bod pêl-droed â'i gafael ar ieuentid yn dechrau effeithio ar gampau eraill. Mae hyn yn sicr yn wir ym myd criced, gyda llai o ieuentid yn mynychu sesiynnau hyfforddi. Anodd i glybiau lleol yw cynnal timau criced dan 9,11, 13 ac 15 heb ddefnyddio bechgyn neu ferched mewn mwy nag un tîm. Eisioes mae ail dîm Bangor wedi ildio dwy gêm oherwydd diffyg niferoedd. Eisioes mae awdurdodau'r gêm yn ceisio chwilio am ateb. Rhai yn beio y teithio anghenrheidiol, ble gall Sadwrn cricedwr yn y gogledd ymestyn o 10 yn y bore hyd at gyrraedd adref 10 y nos. Ydy'r gemau yn rhy hir yn amrywio o 40 pelawd yr un yn y cynghreiriau is i 50 pelawd yr un yn y ddwy brif adran. Yn sicr mae patrymau cymdeithasol a theuluol wedi newid. Gyda'r ddau riant yn gweithio erbyn hyn anoddach yw mynnu i wŷr priod amddifadu y teulu bob pen-wythnos, ar yr adeg mae teuluoedd yn dymuno cymdeithasu. Mae eraill yn cysylltu'r dirywiad ac amseriad y tymor arholiadau yn yr ysgolion, sy'n cydreddeg a dechrau campau'r haf. Nid oes amser i drefnu gemau'r Ysgol a rhaid wrth ddipyn o athletau i arwain at Fabolgampau'r Ysgol. Dyma'r traddodiad.

Ond, beth yw'r ateb. Ym myd criced wn i ddim. Gêm fyrrach, troi'r cynghreiriau yn gynghreiriau ardal? Mae un peth yn sicr. Mae cynnal y gêm yn y gogledd yn disgyn ar lai a llai o ysgwyddau. Gall chwaraewr ymddeol pan fynno. Ymddengys bod rhaid i'r hyfforddwyr, swyddogion a'r gwirfoddolwyr eraill gario mlaen am byth! Diolch amdanynt.

CLWB RHWYFO CYCHOD CELTAIDD (Celtic LongBoats)

Mae clwb rhwyfo newydd yn Llanberis! Clwb rhwyfo Cychod Celtaidd, sydd yn rhan o Glwb Antur Dyffryn Peris. Mae rhwyfo yn ffordd dda o gadw yn heini sydd yn cryfhau cyhyrau'r coesau, stumog a breichiau, a hefyd yn ymarfer cardiofasgwlaidd da.

Mae'n rhad ac yn llawer o hwyl ac yn gyfle gwych i gymdeithasu. Mae'r clwb rhwyfo yn cyfarfod bob nos Fercher am 6:30yh a bore Sadwrn am 10:30yb - cyfarfod yn Gilfach Ddu, Parc Padarn, Llanberis. Dim ond £3.00 am y ddwy sesiwn gyntaf, ac yna bydd rhaid ymaelodi. (Aelodaeth blyneddol £30 a £12 yswiriant + £3.00 y sesiwn)

Ni does angen unrhyw brofiad o rhwyfo - Dewch i drïo!!!!

<http://www.welshsearowing.org.uk/>

Cysylltwch â Sharon ar: 07513459150

TLWS YRECO 2015

Daeth cadarnhad o'r dyddiadau a'r lleoliadau ar gyfer y gystadleuaeth elenni. Ar NOS FERCHER, GORFFENNAF 8ed cynhelir y gystadleuaeth dan 9 ar faes Eithin Duon, cartref Clwb Llanrug.

Y noson ganlynnol, NOS IAU GORFFENNAF 9ed cynhelir y gystadleuaeth dan 11 ar Gae'r Ddôl, Llanberis.

Gofynnir i'r clybiau fy hysbysebu cyn gynted a phosibl ynglyn a nifer y timau. Mae rhai eisioes wedi gwneud. Gofynnir hefyd i chwi ddanfoni y tal cystadlu hefyd sef yr arferol £10 y tîm. Cofiwch y gall aelodau'r timau fod yn fechgyn neu enethod.

Chwaraeon

Triathlon Llanc y Llechen yn llwyddiant eto eleni.



Er mai canol Mai oedd hi yn ôl y calendr, roedd yn debycach i ganol gaeaf yn ôl y tywydd, gyda gwynt mileinig ar y Sadwrn a'r Sul yn golygu fod y trefnwyr, Camu i'r Copa, wedi gorfod cwtogi y cwrs nofio oherwydd tymheredd isel Llyn Padarn. Ar oerni hwnnw fu'r achos i nifer o nofwyr ar y Sadwrn a'r Sul, fethu cwblhau'r cwrs.

Eleni, rhannwyd y cystadlu dros ddau ddiwrnod, gyda'r 'Sbrint' (fu enw mwy anaddas ar gystadleuaeth erioed?) yn cael ei chynnal ar y bore Sadwrn, a'r Triathlon llawn ar y Sul. Roedd dros 400 o unigolion yn cystadlu ar y Sadwrn, a daeth yr enillydd, Andrew Nash i Lanberis o Ynys Manaw, gan orffen mewn awr a deng munud. Yn drydydd-ar-ddeg, lai na deng munud tu ôl iddo roedd Phil Lynes o Lanrug. Camp fawr Phil oedd cystadlu drannoeth yn y Triathlon llawn a gorffen mewn safle haeddiannol, a hynny er iddo golli cyfnod maith o ymarfer yn dilyn llawdriniaeth. O'r holl gystadleuwyr a gwblhaodd y ddwy Driathlon, daeth Phil yn seithfed. Ruth Purbrook oedd enillydd y merched, a daeth

hithau'n drydedd ferch y diwrnod canlynol yn y Triathlon llawn. Yr ail ferch oedd Pauline May (Griffith gynt) o Fanceinion, ond a fu'n byw yn Neiniolen am gyfnod.

Yn y gystadleuaeth i dimau, Tim Genod Llanber oedd yn fuddugol. Yr aelodau oedd Sam Williams yn nofio, Claudette Fleming yn beicio a Ceris ap Gwilym yn rhedeg.

Roedd dros fil o gystadleuwyr yn y Triathlon llawn ar y Sul, gydag Ewan Brown o Gaeredin yn ennill am yr ail flwyddyn yn olynol. Suzy Richards o Leeds oedd y ferch gyntaf. Cafwyd llwyddiant lleol yn y ras hon hefyd, gyda Helen Teasdale o Ddinorwig yn ennill yr adran i ferched dros 40 oed.

Llongyfarchiadau mawr i'r trefnwyr, Camu i'r Copa; i'r ddau sylwebydd, yr hogiau lleol Mathew Ward a Stephen Edwards; i'r fyddin o wirfoddolwyr ac i'r llu o gystadleuwyr lleol, rhai yn hen lawia ar y gamp, ac eraill yn cystadlu am y tro cyntaf. Penwythnos hynod o lwyddiannus mewn mwy nac un ystyr.

Noson Wobrwyo Clwb Judo Segontium, Caethro



Trefnwyd seremoni wobrwyo clwb Jiwdo Segontium ar yr 11eg o Fai. Unwaith eto eleni roedd y noson yn llwyddiant ysgubol. Yn ystod y seremoni roedd holl aelodau'r clwb (29) yn cael eu cydnabod am eu talent. Cyflwynodd Clive James, Cadeirydd y Clwb holl wobrau ar y noson gyda ffotograffydd lleol, Richard Jones yn tynnu lluniau o'r noson.

Eleni bydd y clwb yn dathlu 10 mlynedd ers iddynt sefydlu; yn cynnig cyfle i blant a phobl ifanc yr ardal ddysgu amddiffyn eu hunain. Mae'r clwb bychan yma wedi gweld rhwng 250-300 o blant trwy'r

drysau dros y blynyddoedd.

I ddathlu 10 mlynedd o wasanaeth mae'r clwb wedi cael dylunio logo newydd ac wedi creu tudalen facebook i annog mwy o blant i roi cyfle arni.

Mae Clwb Jiwdo Segonitum yn croesawu aelodau newydd trwy'r flwyddyn, felly os ydych chi rhwng 6 a 16 oed ac os hoffech gael rhagor o wybodaeth, dilynwch ni ar Facebook @ClwbJudoSegontium neu cysylltwch gyda ysgrifennydd y clwb Hannah Hughes drwy e-bost hannahjudo@hotmail.com neu ffonio 07816316236.